Gwaith ieuenctid mewn ysgolion yng Nghymru:
Adroddiad llawn

Ebrill 2015

Arad Research
Enterprise House
126/127 Bute St
Cardiff Bay / Bae Caerdydd CF10 5LE
029 2044 0552
www.aradresearch.com

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 2

1. Cyflwyniad i'r Ymchwil 5

2. Manteision ac effeithiau gwaith ieuenctid mewn Ysgolion 8

3. Natur darpariaeth gwasanaeth ieuenctid mewn ysgolion 16

4. Cyllid a staffio 28

5. Monitro prosiectau 37

6. Perthnasoedd gwaith 43

7. Rhwystrau i waith ieuenctid mewn ysgolion 48

8. Casgliadau 52

Atodiad 1: Methodoleg 59

Atodiad 2: Canllaw i'r materion a drafodwyd yn ystod y cyfweliadau 62

Atodiad 3: Astudiaethau Achos 66

Atodiad 4: Gwaith ieuenctid mewn ysgolion - sampl o'r prosiectau a ddarparir gan Wasanaethau Ieuenctid 78

Atodiad 5: Cyfeiriadau 81

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Comisiynwyd Arad Research i gynnal adolygiad o waith ieuenctid mewn ysgolion yng Nghymru ac i nodi enghreifftiau o arferion da. Nod yr astudiaeth oedd nodi'r cryfderau a'r gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau presennol mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer, a darparu'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Hwn yw'r adroddiad llawn, ac mae adroddiad cryno ar gael hefyd.

Prif ganfyddiadau

Darparu amrediad o fanteision

Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn llwyddo i gynnig amrediad o fanteision i bobl ifanc, ysgolion a chymunedau yng Nghymru. Mae'n ychwanegu gwerth i'r cwricwlwm statudol ac mae'n cyfrannu at lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb uwch a materion sy'n ymwneud â phobl ifanc NEET. Mae ethos ymgysylltu gwirfoddol yn cysylltu gwasanaethau gydag anghenion ac uchelgais pobl ifanc, ac mae partneriaethau llwyddiannus wedi'u seilio ar ymddiriedaeth wedi datblygu rhwng gwasanaethau ieuenctid, y sector gwirfoddol ac ysgolion.

Cyflawnir amrywiaeth eang o waith ieuenctid mewn ysgolion ym mhob awdurdod lleol ar draws Cymru, a gaiff ei gynorthwyo gan amrediad o strwythurau staffio a chyllido. Mae ystod o ffynonellau cyllid ychwanegol megis Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, Cronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd, mudiadau gwirfoddol a chyllid gan rai ysgolion, yn ychwanegu at y cyllid craidd gan awdurdodau lleol.

Mae'r holl awdurdodau lleol a'r mudiadau gwirfoddol yn rhoi ffocws cryf ar gynllunio gwasanaethau sy'n addas i anghenion cymorth pobl ifanc ac sy'n cysylltu gyda'u diddordebau a'u huchelgais. Mae ymgysylltu gwirfoddol pobl ifanc yn ffactor allweddol yn narpariaeth, cynaladwyedd ac effaith gadarnhaol gwaith ieuenctid mewn ysgolion.

Cynorthwyo a chyfoethogi'r cwricwlwm statudol

Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cynorthwyo'r cwricwlwm statudol ac yn ei gyfoethogi. Mae cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid wedi cyfrannu at wella sgiliau academaidd a sgiliau meddal pobl ifanc. Mae wedi gwella eu gweithgarwch ymgysylltu gydag addysg a gyda'r gymuned ehangach, ac mae wedi eu galluogi i fanteisio ar fathau eraill o lwybrau datblygu a chymorth.

Amrediad o effeithiau

Mae'n cyfrannu at gynyddu'r siawns y bydd pobl ifanc yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET) trwy godi eu huchelgais addysgol, annog eu diddordebau a chynnig cymwysterau iddynt trwy gwricwlwm amgen er mwyn gwella cyfleoedd dilyniant.

Gwnaeth yr ysgolion a fu'n ymgysylltu gyda gwaith ieuenctid adrodd am lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb gwell, ynghyd â llai o ymddygiad anystywallt yn yr ystafell ddosbarth, law yn llaw gyda chyfle i athrawon feithrin sgiliau newydd.

Partneriaeth agos gydag ysgolion

Mae partneriaethau agos gwasanaethau ieuenctid gydag ysgolion, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn helpu pobl ifanc i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau. Mae'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion ar eu cryfaf pan fyddant wedi hen ymsefydlu ac mae ymddiriedaeth wedi datblygu rhwng unigolion allweddol.

Er mwyn i'r manteision hyn gael eu cynnal, mae'n bwysig bod darpariaeth gwaith ieuenctid yn cyd-fynd gydag arferion, blaenoriaethau ac ethos ysgolion. Felly, mae gwasanaethau ieuenctid wedi cydnabod bod ymgysylltu llwyddiannus yn mynnu eu bod yn troi at bob ysgol yn unigol.

Cyllid

Er hyn, mae toriadau ariannol yn effeithio ar y ddarpariaeth mewn nifer o awdurdodau lleol, gan effeithio ar allu y gwasanaethau ieuenctid i ddatblygu darpariaeth ar gyfer y tymor hwy. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar

gynaladwyedd ac effeithiolrwydd y gwaith darparu, ac ar y gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.
Gwnaeth rhai awdurdodau lleol adrodd am ostyngiad yn y galw am wasanaethau ieuenctid mewn ysgolion pan fyddai tâl yn cael ei godi ar ysgolion amdanynt. Pan fo gwasanaethau yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu teilwra yn unol â gofynion ac ethos ysgolion, mae'n ymddangos bod ysgolion yn fwy parod i dderbyn bod gofyn iddynt gyfrannu at y cyllid.

Monitro

Er y ceir tystiolaeth bod y rhan fwyaf o wasanaethau ieuenctid yn gwneud gwaith i fonitro eu heffaith, ni cheir dull gweithredu cytunedig a weithredir mewn ffordd gyson ar draws yr holl awdurdodau lleol. Gallai system sy'n cael ei chydnabod a'i defnyddio ar lefel genedlaethol ganiatáu i wasanaethau ieuenctid fesur eu heffaith a dangos eu gwerth mewn ffordd fwy effeithiol.

Casgliadau

Mae sialensiau yn bodoli o hyd wrth ddatblygu a chynnal partneriaethau rhwng awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol ac ysgolion, a sicrhau bod negeseuon cadarnhaol ynghylch gwaith ieuenctid yn cyrraedd ysgolion.

Felly, mae sefydlogrwydd ariannol, gwaith monitro mwy cydlynol ac effeithiol, a gweithgarwch gwell er mwyn rhwydweithio a hyrwyddo gwasanaethau ieuenctid oll yn sialensiau i'w hwynebu er mwyn sicrhau bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cadw gafael ar ei allu i gynnig manteision i bobl ifanc ar draws Cymru.

1. Cyflwyniad i'r Ymchwil

1.1 Comisiynwyd Arad Research i adolygu gwaith ieuenctid mewn ysgolion yng Nghymru ac i nodi enghreifftiau o arferion da.

1.2 Diben canfyddiadau'r adolygiad hwn yw rhoi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru, y sector gwaith ieuenctid, y sector addysg ffurfiol a'r sector gwirfoddol am gysylltiadau effeithiol rhwng darpariaeth addysg ffurfiol a darpariaeth gwaith ieuenctid, sy'n arwain at ganlyniadau gwell i bobl ifanc.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Mawrth 2015. Mae'n bwysig amlygu'r ffaith bod hwn yn cyflwyno'r darlun presennol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion yng Nghymru, ac o ganlyniad i gyllidebau is, sut y gallai'r sefyllfa hon newid ar gyfer 2015/16.

Cyd-destun y gwaith ymchwil

1.4 Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru (2014-2018) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014 (Llywodraeth Cymru, 2014) yn rhoi mwy o bwyslais ar gysylltiadau rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion nag yr oedd dogfennau polisi blaenorol yn ei wneud. Gan adleisio canfyddiadau gwaith ymchwil mewn rhannau eraill o'r DU, mae'n nodi'r canlynol:

> *'…gall arfer gwaith ieuenctid fod yn effeithiol o ran cefnogi deilliannau dysgu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a bod cydweithio agosach rhwng ysgolion, colegau a sefydliadau gwaith ieuenctid yn dod â manteision sylweddol i bobl ifanc.' (t. 11).*

1.5 Mae'n cyfaddef bod lefelau gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid ac ysgolion yn amrywiol iawn ar hyn o bryd, ac mae'n amlygu'r angen i adolygu effaith arfer gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Mae'r gwerthusiad hwn yn cynnig cyfle i fapio gweithgarwch presennol ac i nodi'r meysydd a'r arferion hynny sydd wedi dangos effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ac

ysgolion. Wrth asesu'r effaith hon a darparu dysgu er mwyn cyfrannu at weithgarwch yn y dyfodol, mae'n bwysig ystyried y polisïau ehangach a'r ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar weithgarwch yn y maes hwn.

1.6 Un rhaglen allweddol yw'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF). Nod YEPF yw sicrhau cymorth mwy effeithiol ar gyfer y rhai 16-24 oed er mwyn cyflymu a chynnal gostyngiad yn niferoedd y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) trwy sefydlu system genedlaethol o weithwyr arweiniol i weithio gyda'r bobl ifanc y nodwyd eu bod fwyaf mewn perygl o ymddieithrio, ymhlith camau gweithredu eraill (Llywodraeth Cymru, 2013).

1.7 Mae gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion yn cyflawni rôl gweithwyr arweiniol mewn rhai achosion, felly maent wrth wraidd gweithgareddau er mwyn cynorthwyo'r bobl ifanc hyn sy'n wynebu rhwystrau i EET. Felly, mae'r gwasanaeth ieuenctid – a gwaith ieuenctid mewn ysgolion – yn debygol o gyflawni rôl cynyddol mewn ymdrechion i oresgyn ymddieithrio, fel yr argymhellwyd yn Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf (Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, 2010).

1.8 Yn ogystal, roedd angen i'r astudiaeth hon ystyried y pwysau ar gyllidebau a gwasanaethau awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol yn adolygu'r ddarpariaeth ar draws ystod eang o wasanaethau, ac mewn nifer o achosion, maent yn ailstrwythuro gwasanaethau ieuenctid. Roedd capasiti gwasanaethau ieuenctid i gynnal ac i ddatblygu eu rhwydweithiau cymunedol a'u perthnasoedd gydag ysgolion yn faes a archwiliwyd fel rhan o'r gwerthusiad.

Nod ac amcanion yr astudiaeth

1.9 Roedd amcanion penodol y prosiect, fel y nodwyd yn y fanyleb ar gyfer yr ymchwil, fel a ganlyn:

- Nodi a chynnig trosolwg o ddarpariaeth gwaith ieuenctid sy'n cael ei darparu gan y sector gwaith ieuenctid statudol a

gwirfoddol i ysgolion ar draws Cymru, ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed ac 16-18 oed. (Penodau 3 a 4)

- Archwilio sut y caiff y perthnasoedd rhwng gweithwyr ieuenctid ac ysgolion eu ffurfio, eu cynnal a'u datblygu. (Pennod 6)
- Asesu'r graddau y mae partneriaid yn mesur amrediad ac effaith rhaglenni gwaith ieuenctid mewn ysgolion. (Pennod 5)
- Cynnig trosolwg o effaith ac amrediad rhaglenni gwaith ieuenctid mewn ysgolion. (Pennod 2)
- Cynnig trosolwg o sut y mae rhaglenni gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cyfrannu at ostwng y niferoedd a ddosbarthir fel unigolion NEET. (Adrannau 2.12, 2.14, 3.10 a 3.17)
- Asesu sut y mae prosiectau/ymyriadau yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc, gan gynnwys cyflawniad yn y cwricwlwm ehangach. (Adran 2.8 – 2.16, 2.18, 3.7)
- Asesu sut y mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad pobl ifanc mewn ysgolion. (Adrannau 2.8, 2.14, 2.15, 2.18 a 3.18)
- Nodi cryfderau, gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion. (Penodau 2, 6 , 7 ac 8, Adran 8.24 yn benodol)

Methodoleg

1.10 Roedd yr astudiaeth yn cynnwys ymchwil ddesg gychwynnol; cyfweliadau manwl gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid (PSI) yr holl awdurdodau lleol neu eu swyddogion cyfatebol ac aelodau ychwanegol o dimau gwasanaethau ieuenctid, cyfweliadau manwl gyda mudiadau gwirfoddol a choladu deunydd astudiaethau achos wedi'u seilio ar y cyfweliadau hyn ac ymchwil ddesg ychwanegol. Rhoddir manylion pellach yn yr atodiad.

2. Manteision ac effeithiau gwaith ieuenctid mewn Ysgolion

2.1 Mae'r adran hon yn amlinellu manteision cyffredinol darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Yn benodol, mae'n nodi'r manteisio i bobl ifanc a'r effeithiau arnynt, ynghyd â'r manteision i ysgolion ac i'r gymuned hefyd.

Negeseuon allweddol

- Mae gwaith ieuenctid yn cynnig dull gweithredu amgen a chyflenwol sy'n '***ychwanegu gwerth***' i addysg ffurfiol.
- Mae'r manteision i bobl ifanc fel a ganlyn:
  - **gwella'u** sgiliau academaidd a'u sgiliau meddal;
  - **codi eu huchelgais** a'u gweithgarwch ymgysylltu gydag addysg
  - **cynyddu'r** siawns y byddant yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant;
  - **eu galluogi** i fanteisio ar gymorth arall.
- Mae'r manteision i ysgolion a staff fel a ganlyn:
  - **mae'n gwella** lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb;
  - **mae'n lleihau** ymddygiad anystywallt yn yr ystafell ddosbarth;
  - mae modd i weithwyr ieuenctid gynnig yr **adnoddau diweddaraf o ansawdd** i ysgolion a helpu i wella gwybodaeth athrawon.
- Mae'r manteision i'r gymuned fel a ganlyn:
  - Cynnydd mewn gweithgarwch ymgysylltu pobl ifanc gyda **gwaith ieuenctid cymunedol**;
  - **Datblygu partneriaethau gwell** rhwng ysgolion, grwpiau ieuenctid a grwpiau cymunedol lleol;
  - helpu pobl ifanc i wneud **cyfraniad i'w cymuned.**
- Mae'n bwysig bod y broses o ddarparu gwaith ieuenctid **yn cyd-fynd gydag agenda yr ysgol** er mwyn caniatáu i'r manteision gael eu sicrhau.
- Mae hyrwyddo manteision gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn hanfodol wrth **sicrhau a chynnal tybiaethau cadarnhaol** o waith ieuenctid.

2.2 Gwnaeth unigolion a gyfwelwyd yn ystod y gwaith ymchwil gyfeirio at y ffordd y mae gwaith ieuenctid yn cynnig cymorth

amgen i bobl ifanc. Mae'r cymorth hwn yn cyd-fynd ag elfennau ffurfiol addysg, gan geisio cyfoethogi ac ychwanegu gwerth i'r cwricwlwm statudol.

2.3 Gwnaeth nifer o'r unigolion yr ymgynghorwyd â nhw wneud sylw am y ffaith bod ysgolion yn aml canolbwyntio ar gyrhaeddiad a phresenoldeb yn fwy na dim. Fodd bynnag, mae gwasanaethau ieuenctid yn cydnabod bod modd i gynorthwyo pobl ifanc a'u hanghenion fod yn fwy cymhleth na hyn, gan nad yw pawb yn cydymffurfio gyda'r dull gweithredu 'un ateb sy'n addas i bawb' sy'n cael ei weithredu gan nifer o ysgolion. Felly, efallai y bydd rhai pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu yn dda yn yr ysgol. O'r herwydd, mae dull gweithredu sy'n bodloni anghenion pob person unigol yn fuddiol weithiau, ac mae modd iddo gynnal gweithgarwch ymgysylltu a dilyniant unigolyn mewn addysg.

2.4 Mae gwaith ieuenctid yn cynnig dull gweithredu 'meddal' tuag at gynorthwyo pobl ifanc, gan ganolbwyntio ar faterion cymdeithasol ac emosiynol law yn llaw gyda datblygu sgiliau a chodi uchelgais. Yn yr ystyr hwn, mae gwaith ieuenctid yn 'llenwi bwlch' mewn addysg ffurfiol. Mae'n seiliedig ar ymgysylltu gwirfoddol, fel yr amlygir yn Adran 3.3, ac mae'n hyblyg gan ei fod yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gyfeirio eu dysgu eu hunain.

2.5 Nododd PSIion bod gweithwyr ieuenctid yn 'cynnig dull gweithredu amgen'. Roeddent yn barnu eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r amser sy'n ofynnol er mwyn meithrin perthynas dda gyda phobl ifanc, er mwyn eu helpu i oresgyn materion penodol. Nododd rhai PSIion bod gan weithwyr ieuenctid yr hyblygrwydd nad oes gan athrawon yn aml, sy'n eu galluogi i feithrin y perthnasoedd hyn gyda phobl ifanc.

'Y berthynas rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc yw cryfder go iawn gwaith ieuenctid mewn ysgolion – mae'r plant hyn yn edrych ar weithwyr ieuenctid mewn ffordd wahanol i athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd. Maent yn uniaethu gyda nhw.'

2.6 Yn ogystal â'r ffaith bod ganddynt yr amser a'r sgiliau, mae modd i weithwyr ieuenctid fanteisio ar adnoddau eraill yn aml, nad oes modd i ysgolion fanteisio arnynt efallai. Er enghraifft, efallai y bydd gan weithwyr ieuenctid gysylltiadau gydag asiantaethau neu sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig cymorth arbenigol y gallai fod ei angen ar berson ifanc.

'Mae popeth yn gwella pan fydd gennych chi weithiwr ieuenctid mewn ysgol.'

2.7 Trwy briodi addysg ffurfiol ac anffurfiol, canfuwyd bod gwaith ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar ffactorau megis presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad. Isod, gwelir manylion pellach ynghylch manteision gwaith ieuenctid i bobl ifanc, ysgolion a chymunedau.

Manteision i bobl ifanc

2.8 Roedd cyfweliadau gyda PSIion a chynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol yn amlygu nifer o fanteision y mae gwaith ieuenctid yn ei gynnig i bobl ifanc. Un o'r prif fanteision y cyfeiriwyd ato oedd gwella sgiliau pobl ifanc. Roedd PSIion yn barnu ei bod yn ymddangos bod gwaith ieuenctid yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar wella sgiliau meddal pobl ifanc. Yn ôl y rhai a gyfwelwyd, mae'r cymorth a gynigir gan waith ieuenctid yn helpu i wella hyder, hunan-barch a sgiliau cymdeithasol a rhyngbersonol cyffredinol pobl ifanc. Yn aml, mae modd i hyn alluogi person ifanc i ymgysylltu ac i ddysgu yn well yn yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith anuniongyrchol ar bresenoldeb a chyrhaeddiad. Mae'r astudiaethau achos yn Atodiad 3 yn dangos enghreifftiau eglur o fanteision o'r fath i bobl ifanc.

2.9 Yn ogystal, mae gwaith ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau eraill megis cyflogadwyedd a sgiliau bywyd. Un enghraifft o ddarpariaeth sy'n galluogi pobl ifanc i feithrin y sgiliau hyn yw Cynllun Gwobr Dug Caeredin. Soniodd cynrychiolydd o gynllun Dug Caeredin am y ffordd y mae'r wobr yn mynd y tu hwnt i restr

o gymwysterau. Mae'n caniatáu i bobl ifanc gael profiad o wahanol sefyllfaoedd ac i feithrin sgiliau megis gweithio fel tîm.

'Pe byddai plentyn yn cael gwobr Dug Caeredin, ond dim un cymhwyster arall, gallai wneud gwahaniaeth i'w bywyd.'

2.10 Mae prosiect a ddarparir gan y Groes Goch, sy'n cynnig hyfforddiant cymorth cyntaf i bobl ifanc, yn enghraifft arall o ddarpariaeth sy'n galluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau bywyd. Esboniodd cynrychiolydd o'r Groes Goch sut y mae'r hyfforddiant yn addysgu pobl ifanc i achub bywydau. Gwnaethant roi enghraifft o sut yr oedd un disgybl a oedd wedi cael yr hyfforddiant wedi manteisio ar yr hyn y gwnaeth ei ddysgu pan y daeth ar draws damwain car cyn i unrhyw un arall gyrraedd, gweler astudiaeth achos 5.

2.11 Yn ogystal â gwella sgiliau pobl ifanc, mae modd i waith ieuenctid gynnig gwerth ychwanegol er mwyn helpu pobl ifanc i gynnal eu sgiliau trwy gydol misoedd yr haf. Yn ystod y gwyliau haf, pan na fydd pobl ifanc yn mynychu'r ysgol, nodwyd bod modd iddynt 'ddad-sgilio' a chael anhawster wrth ddychwelyd i'r ysgol. Mae gwasanaethau ieuenctid ar gael trwy gydol yr haf mewn nifer o awdurdodau lleol, felly mae modd iddynt helpu pobl ifanc i gynnal eu sgiliau yn ystod y cyfnod hwn.

2.12 Un o fanteision eraill gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yw ei fod yn cynyddu'r siawns y bydd pobl ifanc yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Er nad nod yr holl waith ieuenctid yw gostwng niferoedd y bobl ifanc NEET, mae llawer o'r ddarpariaeth a gynigir yn cael effaith gadarnhaol ar ostwng ffigurau pobl ifanc NEET mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol. Isod, rhoddir esboniad o'r rhesymau dros hyn.

2.13 Mae systemau monitro gwasanaethau ieuenctid yn dangos tystiolaeth o'r ffaith bod gwaith ieuenctid yn annog pobl ifanc i aros mewn addysg, gan helpu i wella lefelau cyrhaeddiad. O ganlyniad, mae hyn yn gwella cyflogadwyedd a chyfleoedd

hyfforddiant pellach pobl ifanc pan fyddant yn cwblhau eu haddysg.

2.14 At hynny, fel y nodir yn adran 3.7 ynghylch natur gwaith ieuenctid, mae rhywfaint o ddarpariaeth gwaith ieuenctid yn gysylltiedig gyda chymhwyster achrededig. Roedd PSIion a gyfwelwyd o'r farn bod yn rhaid cael canlyniadau dysgu er mwyn i ymyriadau gael effaith. Felly, mae nifer o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn cynnig y cyfle i bobl ifanc weithio tuag at gymhwyster Agored Cymru, sy'n cynyddu lefel ymgysylltu pobl ifanc yn ôl un PSI a gyfwelwyd. Mae hyn yn galluogi gweithwyr ieuenctid i addasu eu darpariaeth ar gyfer lefel y grŵp neu'r unigolyn y maent yn gweithio gyda nhw. Esboniodd un PSI sut y mae modd i'r cymwysterau hyn helpu pobl ifanc pan fyddant yn gwneud cais am addysg bellach. Mae cwblhau'r cymhwyster yn helpu hunan-barch pobl ifanc gan ei fod 'yn peri i'r bobl ifanc deimlo fel pe baent wedi cyflawni rhywbeth.' Mae hyn yn rhoi'r hyder i bobl ifanc barhau gyda'u haddysg ac mae'n codi eu huchelgais er mwyn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant pellach.

2.15 Cafwyd enghraifft gan un PSI o brosiect sy'n cynnig dewis cwricwlwm amgen i bobl ifanc sy'n wynebu materion o fewn addysg (gweler astudiaeth achos 8). Mae hon yn rhaglen ASDAN achrededig sy'n dal pwyntiau trothwy sy'n cyfateb â TGAU, gan alluogi pobl ifanc sy'n cwblhau'r rhaglen i symud ymlaen i gyfleoedd dysgu a hyfforddiant pellach.

'Mae'n cynnig ffordd i bobl ifanc aros yn yr ysgol a gweithio ochr yn ochr â'u cymheiriaid.'

2.16 Yn ogystal â lleihau'r siawns y bydd pobl ifanc yn mynd yn NEET, mae modd i'r cymorth a gynigir gan weithiwr ieuenctid helpu pobl ifanc i fanteisio ar gymorth ieuenctid arall. Mae'n debygol y bydd gan weithwyr ieuenctid wybodaeth arbenigol ynghylch cymorth ieuenctid sydd ar gael i bobl ifanc. Trwy roi'r wybodaeth hon i bobl ifanc, mae gweithwyr ieuenctid yn rhoi'r wybodaeth a'r

adnodd i bobl ifanc a fydd yn eu galluogi i fanteisio ar gymorth arall y maent ei angen efallai.

Manteision i ysgolion a staff

2.17 Yn ôl unigolion a gyfwelwyd, mae gwaith ieuenctid yn cynnig budd i ysgolion yn ogystal â phobl ifanc. Mae'n ymddangos bod systemau monitro gwasanaethau ieuenctid yn dangos bod gwaith ieuenctid yn cynyddu lefelau presenoldeb, gan arwain at ymgysylltu mwy parhaus gyda dysgu mewn ysgolion. Roedd PSIion o'r farn bod modd i'r gwelliant hwn mewn lefelau ymgysylltu leihau ymddygiad anystywallt yn yr ystafell ddosbarth, gan dynnu'r pwysau oddi ar athrawon.

'Mae cymorth, hyblygrwydd a phroffesiynoldeb staff y gwasanaethau ieuenctid yn hynod werthfawr i ni ac yn rhan annatod o'n hethos ynghylch ymgysylltu, meithrin a chynhwysiant.'

2.18 Mae'n ymddangos bod pwysau ar ysgolion i gyflawni a chânt eu barnu ar berfformiad academaidd eu disgyblion. Fel y nodwyd uchod, mae gwaith ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac ymgysylltu. O ganlyniad, bydd cyrhaeddiad pobl ifanc, a pherfformiad yr ysgol gan hynny, yn gwella hefyd. At hynny, esboniodd un PSI a gyfwelwyd bod y cymwysterau achrededig lefel 2 y bydd pobl ifanc yn eu sicrhau trwy'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid yn helpu ysgolion i fodloni eu trothwyon lefel 2. Nododd PSI arall bod yr 87 person ifanc a gafodd eu cyfeirio at y gwasanaeth ieuenctid ac a gafodd gymorth ganddo, wedi llwyddo i sicrhau canlyniadau achrededig o'r cymorth hwn.

'Rydym yn ticio blychau i athrawon.'

2.19 Soniodd PSIion am y ffordd y mae'r ddarpariaeth y mae gweithwyr ieuenctid yn ei darparu i ddosbarthiadau yn gysylltiedig gyda'r cwricwlwm ac yn plethu ag ef. Fel y nodir yn adrannau 6.5 a 6.6, bydd gan weithwyr ieuenctid fwy o hyblygrwydd a chapasiti nag athrawon yn aml er mwyn meithrin perthnasoedd da gyda phobl ifanc ac er mwyn cysylltu gyda gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf). Yn ogystal, dywedodd y rhai a gyfwelwyd bod gweithwyr ieuenctid yn fwyaf tebygol o feddu ar y wybodaeth arbenigol ddiweddaraf o ran materion y gallai pobl ifanc fod yn eu hwynebu. Felly, mae modd i weithwyr ieuenctid gynnig yr adnoddau diweddaraf o ansawdd i ysgolion hefyd, a helpu i wella gwybodaeth athrawon.

Manteision i'r gymuned

2.20 Adroddodd y sawl a gyfwelwyd am y ffordd y mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn gysylltiedig gyda gwaith ieuenctid cymunedol a sut y mae ymgysylltu mewn ysgolion yn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu yn y gymuned. Er enghraifft, soniodd un PSI am y ffordd y mae clybiau cinio wedi helpu i godi lefelau presenoldeb mewn grwpiau ieuenctid prif ffrwd ar ôl ysgol.

2.21 Yn ôl rhai PSIion, trwy gyfrwng gwaith ieuenctid, caiff pobl ifanc eu trin fel dinasyddion. Mae hyn yn helpu pobl ifanc i deimlo fel pe baent yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn dymuno gwneud cyfraniad i'w cymuned.

Manteision a gynigir gan y sector gwirfoddol

2.22 Mae mudiadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid yn cynnig manteision unigryw yn ychwanegol i'r rhai a drafodwyd uchod. Er enghraifft, mae Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (ASH) Cymru yn darparu gwybodaeth arbenigol i wasanaethau ieuenctid statudol, gan gynnig hyfforddiant i weithwyr ieuenctid, athrawon, cwnselwyr ysgol a chynorthwywyr addysgu. Mae modd i fudiadau gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol

fod yn fwy hyblyg wrth ddarparu nag y mae modd i dimau ieuenctid statudol fod, ac mewn rhai achosion, mae modd iddynt fanteisio ar gymorth tîm cyfathrebu hefyd.

'Mae modd i ni fod yn hyblyg o ran yr hyn a ddarparir a sut y caiff ei ddarparu, ac mae modd i ni fod yn hyblyg yn ystod sesiynau.'

3. Natur darpariaeth gwasanaeth ieuenctid mewn ysgolion

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil o ran math a chwmpas y ddarpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y cymorth cyffredinol sydd ar gael a chymorth sy'n cael ei dargedu yn fwy, ynghyd â syniad o'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaethau ar draws Cymru.

Negeseuon allweddol

- Mae lleoliad gwasanaethau ieuenctid mewn adrannau awdurdodau lleol yn **amrywio ar draws Cymru**
- Mae pobl ifanc yng Nghymru yn ymgysylltu ag **amrywiaeth eang o weithgareddau** trwy gyfrwng darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion
- Darparir gwaith ieuenctid mewn ysgolion gan **awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol** sy'n gweithio yn annibynnol ac mewn partneriaeth
- Mae'r prosiectau a ddarparir **yn bodloni anghenion a diddordebau'r bobl ifanc dan sylw yn fwy na dim**, yn ogystal â'r ysgol a'r gymuned
- Ceir neges gref sy'n ymwneud â phwysigrwydd **ymgysylltu gwirfoddol** gan y bobl ifanc dan sylw

Diffiniadau o waith ieuenctid mewn ysgolion

3.2 Er mwyn pennu amrediad a chwmpas y prosiectau gwaith ieuenctid a ddarparir mewn ysgolion gan y sector statudol ac anstatudol, mae'n bwysig sicrhau dealltwriaeth o'r hyn y mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn ei olygu yn union. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff gwasanaethau ieuenctid eu cynnwys yn Adran Addysg awdurdodau lleol, gan adlewyrchu'r berthynas waith agos sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i bobl ifanc mewn ysgolion, ond mae modd iddynt ddod dan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd, a'r Adran Datblygu Economaidd. Wrth i rai awdurdodau lleol gwblhau proses ailstrwythuro yn ddiweddar, mae rhai gwasanaethau

ieuenctid bellach wedi cael eu lleoli mewn adrannau mawr. Er enghraifft, yng Ngheredigion, mae cyfarwyddiaeth newydd a sefydlwyd yn goruchwylio ymgysylltu pobl ifanc, addysg barhaus, gwasanaethau ieuenctid, pobl ifanc NEET, addysg i oedolion a Chymraeg i oedolion.

3.3 Amlygwyd pwysigrwydd rôl gwirfoddol ac anffurfiol gwaith ieuenctid gan PSIion, ac roeddent yn ystyried gwaith ieuenctid fel 'priodas rhwng addysg ffurfiol ac anffurfiol'. Gyda'r gwasanaethau a ddarparir yn cael eu harwain gan anghenion ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn; 'rhaid bod y person ifanc yn dymuno ymgysylltu'. Yn ogystal, cydnabuwyd bod gwaith ieuenctid yn cynorthwyo'r cwricwlwm ffurfiol ac mewn rhai achosion, ei fod yn cael ei addasu i wneud hynny, gan gyfoethogi'r cwricwlwm statudol ac ychwanegu gwerth iddo o ganlyniad i weithgareddau gwaith ieuenctid.

'Mae natur gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn bwrpasol ac yn cyd-fynd ag anghenion yr ysgol / y bobl ifanc / yr ardal.'

'Mae gwaith ieuenctid yn cynnwys pobl ifanc yn y broses o'i gynllunio a'i ddarparu, gan rymuso'r person ifanc trwy hynny.'

Cwmpas a darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion

3.4 Tra bod gwasanaethau ieuenctid mewn ysgolion yn cynnig amrediad o gyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu mewn ffordd wirfoddol, mae gwaith ieuenctid statudol ac anstatudol yn cael ei dargedu hefyd yn ôl oedran, rhyw, cyfnod allweddol neu gyfnod pontio ar draws Cymru. Mae'r holl wasanaethau ieuenctid statudol yn cyflwyno data monitro i Lywodraeth Cymru, a chaiff crynodebau ynghylch darpariaeth prosiectau a nifer y cysylltiadau ar draws pob awdurdod lleol eu coladu bob blwyddyn gan StatsCymru1. Caiff categorïau darpariaeth eu diffinio o fewn

1 StatsCymru. https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Youth-Service/Projects-and-Members

cyflwyniadau gwasanaethau ieuenctid. Mae Tabl 4.1 a'r crynodeb dilynol yn rhoi syniad o amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael ar draws Cymru. Yn ogystal, mae Atodiad 4 yn cynnwys sampl o brosiectau a ddarparir yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

3.5 Ceir amrywiaeth ar draws Cymru o ran gweithgarwch ymgysylltu gwasanaethau ieuenctid gydag ysgolion, h.y. cyfran yr ysgolion a'r disgyblion sy'n cael y cyfleoedd a gynigir gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol. Mae Tabl 3.1 isod yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch ymgysylltu fesul awdurdod lleol.

Tabl 3.1. Ymgysylltu ysgolion gyda gwasanaethau ieuenctid fesul awdurdod lleol.

Awdurdod lleol	Ymgysylltu ysgolion
Ynys Môn	Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw weithwyr ieuenctid mewn ysgolion; caiff gwaith prosiect ei gyflawni o hyd pan fydd ei angen ar ysgolion. Tan 2014, roedd gan bob ysgol weithiwr ieuenctid (a ariannwyd gan gyllid Ewropeaidd)
Blaenau Gwent	Mae gan bob ysgol uwchradd weithiwr ieuenctid amser llawn; mae tair o'r bedair ysgol yn hwyluso sesiynau galw heibio.
Pen-y-bont ar Ogwr	Adeg ysgrifennu hwn, roedd gan yr holl ysgolion uwchradd ryw fath o gyswllt gyda gweithwyr ieuenctid, ond ni cheir gweithwyr ieuenctid ysgol penodedig. Mae naw gweithiwr ieuenctid cyfwerth ag amser llawn yn cysylltu gyda'r holl ysgolion, ond fel rhan o bortffolio gwaith ieuenctid. O fis Ebrill, bydd naw gweithiwr ieuenctid cyfwerth ag amser llawn yn cael eu neilltuo i weithio mewn ysgolion a chaiff diwrnodau eu neilltuo fesul ysgol ar sail yr angen.
Caerffili	Mae pedair o'r bedair ar ddeg ysgol uwchradd yn rhan o'r prosiect gwaith ieuenctid presennol mewn ysgolion, ac mae ganddynt weithwyr ieuenctid parhaol.
Caerdydd	Maent yn ymgysylltu gyda'r ddwy ysgol ar hugain ar draws Caerdydd.
Sir Gaerfyrddin	Mae gan y ddeuddeg ysgol uwchradd weithiwr ieuenctid arweiniol amser llawn ac mae gan ysgol anghenion arbennig (7-16) weithiwr ieuenctid arweiniol amser llawn hefyd.
Ceredigion	Mae'r gwasanaethau ieuenctid yn gweithredu am ddau ddiwrnod yr wythnos mewn chwech o'r saith ysgol uwchradd yng Ngheredigion ar hyn o bryd.
Conwy	Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio gyda'r saith ysgol uwchradd 11-18 a'r ddwy Uned Cyfeirio Disgyblion yng Nghonwy.
Sir Ddinbych	Yn ymgysylltu gyda'r holl ysgolion i raddau fwy neu lai.
Sir y Fflint	Un gweithiwr ieuenctid mewn ysgolion yn y gwasanaeth ieuenctid ac un arall i roi cymorth yn ôl y gofyn. Mae

	gweithwyr ieuenctid eraill mewn ysgolion ond maent yn canolbwyntio ar achredu ac nid ydynt yn adrodd i'r Gwasanaeth Ieuenctid.
Gwynedd	Dim gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion. Mae gan y gweithwyr ieuenctid a chymunedol berthynas gyda rhai ysgolion ac maent yn darparu achrediadau a Dug Caeredin (ond wedi'u cyfyngu i 3-4 awr o gyswllt yr wythnos gyda'r ysgolion hyn). Tan 2014, roedd pum gweithiwr ieuenctid a ariannwyd gan gyllid Ewropeaidd mewn ysgolion, yr oeddent yn darparu o leiaf un diwrnod yr wythnos yn yr holl ysgolion uwchradd.
Merthyr Tudful	Mae Merthyr yn cynnal nifer o wahanol brosiectau sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Maent wedi datblygu pedwar clwstwr gwasanaeth cymunedol ar draws yr awdurdod lleol – un yn y gogledd, un yn y canol, a dau yn y de.
Sir Fynwy	Mae gan y bedair ysgol gyfun a'r uned i blant ag anawsterau emosiynaol ac ymddygiadol weithiwr ieuenctid amser llawn penodedig sy'n gysylltiedig gyda chanolfan ieuenctid hefyd.
Castell-nedd Port Talbot	Mae modd rhannu'r ddarpariaeth yn ddwy elfen. 1. Y cynnig cyffredinol e.e. Addysg Rhyw a Pherthnasoedd 2. Mae timau penodol yn darparu gweithgarwch wedi'i ariannu neu ei dargedu mewn ffordd benodol e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf.
Casnewydd	Mae Gwasanaethau Ieuenctid yn gweithio gyda'r wyth ysgol uwchradd ac un coleg yn fwy na dim. Ar hyn o bryd, ceir 13 swydd sy'n gyfwerth ag amser llawn yn yr Awdurdod Lleol.
Sir Benfro	Mae wyth ysgol uwchradd prif ffrwd yn ymgysylltu gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, gan dargedu Cyfnod Allweddol 4 yn bennaf, mae gan un ysgol weithiwr amser llawn ac mae'r gweddill yn rhan-amser.
Powys	Darparir gwaith ieuenctid ar draws y dair ysgol ar ddeg ym Mhowys a'r dair ysgol arbennig.
Rhondda Cynon Taf	Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgysylltu gyda'r ddwy ysgol ar bymtheg uwchradd ar draws yr awdurdod, gan ddarparu dau aelod o staff amser llawn ym mhob un.
Abertawe	Ar hyn o bryd, caiff wyth gweithiwr ieuenctid amser llawn eu cynorthwyo gan swyddi arbenigol eraill, ond o ganlyniad i gyfyngiadau o ran yr adnoddau, nid oes ganddynt bresenoldeb ym mhob ysgol ar draws yr awdurdod lleol.
Torfaen	Mae ganddynt dîm o 26 a chysylltiadau gyda Prevent a phrosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, fodd bynnag, mae ganddynt eu cyllidebau eu hunain er mwyn cynllunio a darparu gwaith. Ar hyn o bryd, maent yn ymgysylltu gyda thair o'r chwe ysgol yn yr awdurdod lleol.
Bro Morgannwg	Maent yn ymgysylltu gyda'r dair ysgol gyfun a'r ysgolion sy'n eu bwydo.
Wrecsam	Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgysylltu gydag wyth o blith y naw ysgol uwchradd.

3.6 Mae'r prosiectau a gyflawnir ar draws Cymru gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol yn eang ac yn amrywiol. Yn ogystal, mae'r sector gwirfoddol yn cyfrannu at gynnig cyfleoedd gwaith ieuenctid i bobl ifanc. Mae sefydliadau megis CWVYS (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol) yn ceisio annog sgyrsiau rhwng rhanddeiliaid yn y sector ysgolion, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith awdurdodau lleol ac ysgolion o bosibiliadau gwaith ieuenctid mewn ysgolion sy'n cynnwys y sector gwirfoddol. Amlinellir enghreifftiau o'r prosiectau hyn yn yr astudiaethau achos yn atodiad 3.

Achredu

3.7 Mae nifer o wasanaethau ieuenctid yn darparu dysgu achrededig, fel rhan o gwricwlwm amgen (ar y safle ac oddi ar y safle) ac o fewn darpariaeth gyffredinol yr ysgol. Mae'r cyrff dyfarnu a ddefnyddir yn cynnwys ASDAN, Agored, BTEC a Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae'r pynciau a ddarparir trwy gyfrwng unedau achrededig o'r fath yn cynnwys Paratoi ar gyfer gwaith Dol Efelychu Gofal Baban Go Iawn (gweler astudiaeth achos 3), prosiect wedi'i seilio ar rywedd (gweler astudiaeth achos 1), Ymddygiad ac Iechyd Personol, Dinasyddiaeth Weithredol, Cydraddoldeb a Democratiaeth, Sgiliau Mentora Cymheiriaid ac Addysg Cymheiriaid.

3.8 Yn ogystal, mae mudiadau gwirfoddol sy'n ymgysylltu gydag ysgolion yn cyfrannu at yr achrediad a gynigir i bobl ifanc. Er enghraifft, ar ôl cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, barnwyd ei bod yn ddymunol datblygu achrediad ar gyfer pobl ifanc. Yn ogystal, mae Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (ASH) Cymru yn datblygu rhaglen achrededig ar hyn o bryd (gweler astudiaeth achos 2).

3.9 Roedd Adran 3.3 yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu gwirfoddol pobl ifanc gyda gwaith ieuenctid, a chaiff hyn ei ail-bwysleisio gan rai o'r rhaglenni achredu a gynigir. Er enghraifft yn Sir Benfro, er

bod canlyniadau dysgu rhaglen wedi cael eu pennu ymlaen llaw, ceir cwmpas i bobl ifanc ddatblygu amserlen er mwyn cwblhau unedau gan ddibynnu ar eu hanghenion, ac anghenion a diddordebau'r grŵp ehangach. Mae hyn yn sicrhau bod y profiad dysgu yn un cadarnhaol, a bod y lefelau ymgysylltu yn parhau i fod yn uchel, gweler astudiaeth achos 4 am ragor o fanylion.

Yn Sir Ddinbych, mae'r awdurdod lleol yn ariannu gweithiwr ieuenctid yr Urdd i ddarparu gwaith ieuenctid dan drefniant amser llawn, gan gynnwys clybiau cinio, ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, achrediadau Cyfrwng Cymraeg, teithiau i gynadleddau ieuenctid a fforwm Ieuenctid. Mae'r gweithiwr ieuenctid yn darparu mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac mae'n cynnal sesiynau Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion Saesneg hefyd. Rhoddir ffocws cryf ar achredu a hwyluso gwirfoddoli.

Cwricwlwm Amgen

3.10 Ar draws Cymru, mae gwasanaethau ieuenctid a mudiadau gwirfoddol yn hwyluso darpariaeth cwricwlwm amgen ar safle yr ysgol neu mewn lleoliadau niwtral eraill. Darparir llawer o'r cwricwlwm hwn ar gyfer pobl ifanc y gallent fod yn agored i niwed neu'n wynebu rhwystrau wrth ddysgu. Mae meithrin sgiliau cymdeithasol a phennu mecanweithiau ymdopi ar gyfer pobl ifanc, ynghyd â sicrhau canlyniadau achrededig, yn rhan greiddiol o'r ddarpariaeth.

Mae Addysgu Dysgwyr Mewn Ysgolion (ELIS) yn rhan o raglen cwricwlwm amgen Abertawe. Fel arfer, mae'r meini prawf er mwyn manteisio ar y rhaglen yn cynnwys presenoldeb gwael a / neu ymddygiad gwael. Mae ELIS wedi cael ei redeg mewn safle ar wahân ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11 – bydd disgyblion yn aros ar gofrestr yr ysgol fodd bynnag, ac mae hon yn agwedd allweddol ar y rhaglen, gan geisio eu cadw mewn addysg ffurfiol a chynorthwyo'r broses o'u hailintegreiddio. Mae ELIS yn cael ei ailstrwythuro fodd bynnag, ac ar hyn o bryd, nid yw'n eglur beth fydd ei ffurf yn y dyfodol.

Mae'r Fforwm Dysgu Amgen yn rhan o ddarpariaeth Casnewydd. Caiff niferoedd bach o bobl ifanc eu cludo o'r Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) i leoliad niwtral. Mae'n ddarpariaeth cyn-NEET yn ei hanfod, a'i nod yw cael effaith dros y tymor hwy. Mae'r bobl ifanc yn aros ar gofrestr yr ysgol, fodd bynnag maent yn cael cymorth gan weithiwr ieuenctid. Mae modd codi tâl amdano ond fel rheol, ni fydd Gwasanaeth Ieuenctid Casnewydd yn codi tâl am wasanaethau. Gallai hyn newid yn y dyfodol oherwydd efallai y bydd targed ynghylch yr incwm o ganlyniad i ddiffyg yn yr incwm.

3.11 Yn ogystal, mae astudiaethau achos 4 ac 8 yn darparu enghreifftiau manylach o raglenni cwricwlwm amgen a ddarparir gan awdurdodau lleol Sir Benfro a Merthyr Tudful.

Gwobr Dug Caeredin

3.12 Mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn dal trwydded i ddarparu Gwobr Dug Caeredin ac mae gwasanaethau ieuenctid yn darparu elfen hanfodol er mwyn cynorthwyo hyn. Mae'n bwysig nodi bod union ffurf y cymorth hwn yn amrywio rhwng awdurdodau, gyda rhai swyddogion Gwobr Dug Caeredin awdurdodau lleol yn cyflawni rôl hwyluswyr yn unig wrth i athrawon ddarparu, ac mewn ardaloedd eraill, mae swyddogion datblygu yr awdurdod yn darparu hyfforddiant i staff addysgu ac i'r bobl ifanc yn uniongyrchol.

Rhaglenni Cyfoethogi

3.13 Mae'r rhain yn ymwneud ag ymgysylltu dwys y gwasanaeth ieuenctid gydag ysgolion, wrth iddynt ddarparu diwrnod llawn neu wythnos o weithgareddau i grwpiau blwyddyn penodol neu raglen reolaidd am dymor neu hanner tymor. Er enghraifft yn 2014, roedd gwasanaethau ieuenctid Conwy wedi darparu gweithgareddau a oedd yn ymwneud ag iechyd i 354 o fyfyrwyr mewn un ysgol uwchradd dros bedwar diwrnod.

Darpariaeth yn ystod y gwyliau

3.14 Er y byddai'n ymddangos bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn canolbwyntio ar weithgareddau yn ystod y tymor, yn ôl ei natur, mae'n bwysig nodi bod nifer o awdurdodau lleol yn cynnig darpariaeth yn ystod y gwyliau sy'n gysylltiedig gyda'u prosiectau gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Gall y math o ddarpariaeth amrywio o'r hyn a gynigir gan y clwb ieuenctid ar safleoedd ysgolion yn ystod y gwyliau, i ddull gweithredu gyda mwy o ffocws. Er enghraifft, yn Sir Ddinbych, darparir dolen gyswllt trwy gydol gwyliau'r haf er mwyn ceisio atal unrhyw faterion a allai godi ar ôl dychwelyd i'r ysgol o ganlyniad i 'ddad-sgilio' yn ystod y gwyliau. Mae modd i brosiectau eraill gynorthwyo wrth feithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng pobl ifanc o wahanol ysgolion trwy eu dwyn ynghyd mewn lleoliad niwtral i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Er enghraifft yng Nghaerffili, talwyd am gludiant i ddod â phobl ifanc i leoliad canolog er mwyn cymryd rhan mewn gweithdai celf graffiti neu golur theatrig yn ystod y gwyliau hanner tymor.

Mentora

3.15 Mae modd i staff ysgol neu'r person ifanc eu hunain gyfeirio at wasanaethau ieuenctid a/neu weithwyr ieuenctid mewn ysgolion er mwyn cael cymorth un-i-un. Bydd cyfeiriadau eraill yn dod o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) neu Gyfiawnder Ieuenctid. Mae defnyddio'r Offeryn Adnabod yn Gynnar gan ddefnyddio systemau rheoli gwybodaeth yn rhoi cyfeiriadau pellach i wasanaethau ieuenctid.

3.16 Er enghraifft, darparwyd rhaglen mentor ieuenctid trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf gan awdurdod lleol Caerdydd, ac roedd hwn ar gyfer pobl ifanc y maent yn derbyn gofal neu y maent mewn perygl o symud i sefyllfa lle y byddant yn derbyn gofal. Mae gan y rhaglen bum mentor sy'n cynorthwyo pobl ifanc gyda'u dysgu, a nodir gan eu hysgol a'u gwasanaethau plant. Yn

ogystal, mae'r sector gwirfoddol yn cyfrannu wrth i wasanaethau mentora a chwnsela gael eu cynnig i ysgolion, a chyflwynir gwybodaeth am y gweithgareddau a gynhelir yn Nhorfaen isod.

Mae Canolfan i Bobl Ifanc Cwmbrân (CCYP) yn darparu gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ym mhob ysgol uwchradd yn yr ardal ac mewn rhai ysgolion iau. Bydd cwnselwyr yn ymweld â'r ysgolion uwchradd am ddau ddiwrnod yr wythnos. Bydd staff ysgol yn gwneud cyfeiriadau ar gyfer myfyrwyr a fyddai'n elwa o'r gwasanaeth yn eu barn nhw. Yn ogystal, ceir dau gwnselydd sy'n darparu cymorth fel y bo'r angen, sy'n gallu bod o gymorth os gwelir mwy o alw. Mae modd i ddisgyblion fanteisio ar y gwasanaeth trwy gyfrwng y Ganolfan ar ôl oriau ysgol hefyd.

Mae'r cyllid yn tarddu o Lywodraeth Cymru a chyflwynir adroddiadau monitro i Lywodraeth Cymru. Tan 2015, bu'n rhaid defnyddio'r cyllid hwn ar gyfer cwnsela, ond bellach, mae modd i bob awdurdod lleol benderfynu sut i wario'r arian. Gan gydnabod llwyddiant gwasanaeth cwnsela y Ganolfan mewn ysgolion, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn parhau i ariannu'r gwaith ymgysylltu hwn.

Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

3.17 Mae nifer o'r prosiectau a ariannir trwy gyfrwng y ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid mewn ysgolion yn cynorthwyo cyfleoedd er mwyn cadw pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan ostwng niferoedd y bobl ifanc NEET mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol. Felly, mae agenda NEET yn elfen arwyddocaol o'r ffocws ar gyfer gwasanaethau ieuenctid a darpariaeth wirfoddol ac mae nifer o'r prosiectau cwricwlwm amgen a nodir gan awdurdodau lleol yn cynorthwyo cyfleoedd a photensial ar gyfer y rhai a ddosbarthir fel pobl ifanc NEET neu y maent mewn perygl o fod yn NEET.

Ym Merthyr Tudful, mae *Pontio i Gyflogaeth* yn darparu rhaglen o gyfleoedd dysgu arloesol, amrywiol a blaengar ar gyfer pobl ifanc 11-19 oed trwy gyfrwng gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer y rhai y maent yn y perygl mwyaf o beidio cyflawni o fewn addysg y brif ffrwd neu o wynebu allgáu cymdeithasol ac addysgol (gweler astudiaeth achos 8 am fanylion pellach)

Mae'r bedair ysgol uwchradd ym Mlaenau Gwent yn talu i dri disgybl gymryd rhan ym mhrosiect 14-19 pre-VENT. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau ddiwrnod yr wythnos ar leoliad gwaith, gyda'r disgyblion yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd mewn canolfan ieuenctid am weddill yr wythnos. Addysgir TGAU yn ogystal â sesiynau sy'n canolbwyntio ar hyder a hunan-barch. 2014-15 yw'r flwyddyn gyntaf

y mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi darparu'r prosiect ac adeg ysgrifennu hwn, roedd naw o blith y 12 cyfranogydd wedi llwyddo i sicrhau cofnod presenoldeb o 100 y cant.

Codi lefelau presenoldeb

3.18 Ceir nifer o brosiectau sy'n cyfrannu at wella lefelau presenoldeb. Mae rhai awdurdodau lleol yn ne ddwyrain Cymru wedi defnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a neilltuwyd i brosiect 14-19 pre-VENT (Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Thorfaen gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni rôl y Noddwr Arweiniol). Gwnaeth hyn eu cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau mentora un i un er mwyn cynorthwyo pobl ifanc 14-19 oed sy'n NEET neu y maent mewn perygl o fod yn NEET.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

3.19 Mae sesiynau Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn elfen hanfodol o'r ddarpariaeth addysg ac mae gweithwyr ieuenctid yn cyfrannu at y cwricwlwm ar gais ysgolion unigol ar draws Cymru. Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cyrsiau ynghylch maeth a sesiynau ynghylch iechyd meddwl ac iechyd rhywiol i grwpiau blwyddyn wedi'u targedu, maent yn cynnig darpariaeth ABCh mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU) ac yn hyfforddi athrawon mewn rhai awdurdodau lleol.

3.20 Yn ogystal, mae'r sector gwirfoddol wedi cyfrannu at y rhan hon o'r cwricwlwm, er enghraifft, mae ASH Cymru wedi datblygu pecyn cymorth er mwyn cynorthwyo athrawon i ddarparu ABCh (gweler astudiaeth achos 2) ac mae'r Groes Goch yn darparu cyrsiau sy'n ymwneud â materion dyngarol (gweler astudiaeth achos 5), gan gynnig darpariaeth mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae prosiect sy'n cael ei hwyluso gan Brifysgol Abertawe yn cynorthwyo darpariaeth ABCh i ysgolion lleol (gweler astudiaeth achos 6). Nod Prosiect 'Think' yr Ymddiriedolaeth Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) yw herio hiliaeth ac eithafiaeth ar y dde eithaf, a gwella gallu pobl ifanc i

wrthsefyll ideoleg y dde eithaf, ac mae'n enghraifft o drefniant lle y mae sefydliad lleol llwyddiannus yn ymgysylltu gydag ysgolion, ac mae hyn wedi ffynnu gan ddatblygu i fod yn fenter lawer yn fwy, gan weithio ar draws ardal llawer ehangach erbyn hyn, fel y trafodir ymhellach yn astudiaeth achos 7.

Sesiynau galw heibio mewn ysgolion

3.21 Darparir rhywfaint o ddarpariaeth ar ffurf sesiynau galw heibio mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae modd i'r sesiynau hyn ddigwydd yn ystod amser cinio, ar ôl ysgol neu fel rhan o glwb brecwast. Fel arfer, bydd y ddarpariaeth yn digwydd mewn 'ystafell ieuenctid' neilltuedig, ac mewn achosion eraill, caiff y sesiwn alw heibio ei hwyluso gan ddefnyddio gwasanaeth symudol. Bydd gan athrawon y cyfle i gyfeirio myfyrwyr at y gwasanaethau, yn enwedig yn yr ysgolion hynny pan fydd gweithiwr ieuenctid ar y safle yn ystod y dydd.

Mae gan wasanaeth ieuenctid Conwy ddau fws sy'n gwasanaethu'r sir ac sy'n ymweld ag ysgolion bob wythnos, gan alluogi myfyrwyr i 'alw heibio' yn ystod cyfnodau egwyl a chinio. Mae nifer dda yn mynychu'r rhain, e.e. mewn sesiwn gyffredin yn ystod amser cinio, mae modd gweld tua 70 o fyfyrwyr yn mynychu.

Darpariaeth clybiau ieuenctid a chysylltiadau gydag ysgolion

3.22 Mae'n bwysig nodi bod darpariaeth clybiau ieuenctid, er eu bod yn cael eu darparu y tu allan i'r lleoliad a'r diwrnod ysgol, dan ddylanwad cryf ysgolion mewn rhai achosion. Mae gwasanaethau ieuenctid rhai awdurdodau lleol yn defnyddio safleoedd ysgolion gyda'r hwyr a byddai modd ystyried hwn fel gwasanaeth cyflenwol, gan ymgysylltu gyda'r bobl ifanc mewn amgylchedd cyfarwydd, a hefyd, mae gwasanaethau eraill sy'n cynorthwyo clybiau ieuenctid yn cael eu hysbysu o bosibiliadau darparu yn yr ysgol.

Gwaith pontio

3.23 Mae gwaith pontio a ddarparir gan wasanaethau ieuenctid yn cynorthwyo'r broses o symud o'r cynradd i'r uwchradd. Yn ogystal,

mae'n cynorthwyo'r camau pontio o fewn y profiad uwchradd, gan symud o flwyddyn 9 i flwyddyn 10, a symud ymlaen o flwyddyn 11; naill ai aros yn yr ysgol, symud i goleg neu i fyd gwaith. I rai gweithwyr ieuenctid, dyma brif elfen eu rôl, gyda gwaith pontio yn cael ei ddarparu mewn pob ysgol ar draws rhai awdurdodau. Adroddwyd bod hyn yn cynorthwyo wrth ddatblygu perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc, a bod modd iddo arwain at ymgysylltu parhaus.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yn cynnig cymorth i bobl ifanc wrth iddynt bontio o'u haddysg cyn-16 i'w haddysg ôl-16. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc a nodwyd gan Gyrfa Cymru a chan eu hysgolion fel rhai nad ydynt yn ymgysylltu. Yn 2014, nodwyd 170 o bobl ifanc a thrwy gyfrwng y rhaglen bontio, llwyddwyd i ail-ymgysylltu 69% o'r rhain.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn cynnal prosiect pontio, sesiynau blasu a chyrsiau preswyl sgiliau haf er mwyn paratoi ar gyfer cyflogaeth – gwnaeth 36 fynychu'r un a gynhaliwyd yn 2014, gan gyflawni 127 o ganlyniadau achrededig.

Darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

3.24 Mae nifer o awdurdodau lleol yn cyflogi gweithwyr ieuenctid Cymraeg ac mae rhai ohonynt yn gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd. Cynhelir y ddarpariaeth mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal, mae'r Urdd yn hwyluso clybiau ieuenctid mewn ffordd uniongyrchol gydag ysgolion, gan ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli ac achredu ar gyfer pobl ifanc.

4. Cyllid a staffio

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil o ran sut y caiff gwaith ieuenctid mewn ysgolion ei ariannu a'i staffio.

Negeseuon allweddol

- **Mae ystod eang o ffynonellau a strwythurau cyllido** mewn grym er mwyn cynorthwyo'r broses o ddarparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion ar draws Cymru.
- Mae **amrediad o ffynonellau cyllid ychwanegol** megis Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, cyllid ESF ar gyfer prosiectau gwaith ieuenctid penodol mewn ysgolion, mudiadau gwirfoddol a chyllid gan rai ysgolion, yn ychwanegu at y **cyllid craidd** gan awdurdodau lleol.
- **Ceir cyswllt agos rhwng cyllid a threfniadau staffio** ac adroddodd awdurdodau lleol am ystod eang o drefniadau staffio ar gyfer eu gweithgareddau gwaith ieuenctid mewn ysgolion, gan gynnwys **gweithwyr ieuenctid amser llawn a dros dro a threfniadau staffio arbenigol** yn ôl y gofyn.
- Gwelir ymagwedd wrthgyferbyniol tuag at awdurdodau lleol yn gofyn am gyfraniadau gan ysgolion ar gyfer y ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid. Gwnaeth rhai awdurdodau lleol adrodd am **ostyngiad yn y galw am wasanaethau ieuenctid** mewn ysgolion pan fyddai tâl yn cael ei godi ar ysgolion amdanynt.
- **Mae materion cyllido presennol wedi cael effaith ar niferoedd y staff** mewn nifer o awdurdodau lleol.
- Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi **cyfarwyddyd mwy ffurfiol** i ysgolion i wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar wasanaethau ieuenctid.

4.2 Mae amrediad o ffynonellau a strwythurau cyllido mewn grym er mwyn cynorthwyo'r broses o ddarparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae'r prif ffynonellau cyllido fel a ganlyn:

- Cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol (Nid yw hwn wedi cael ei glustnodi ac mae'r gyfran sy'n cael ei gwario ar waith ieuenctid yn amrywio)
- Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru

- Yn aml, bydd ffynonellau cyllid ychwanegol yn ychwanegu at y rhain megis y Grant Amddifadedd Disgyblion a mentrau megis Teuluoedd yn Gyntaf, a phan fo hynny'n berthnasol yn ddaearyddol, Cymunedau yn Gyntaf.
- Yn ogystal, mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu prosiectau sy'n cael eu hariannu gan ESF ac sy'n ymwneud â gweithgarwch ymgysylltu pobl ifanc, yn enwedig y rhai y maent yn NEET neu y maent mewn perygl o ddatblygu i fod yn NEET.
- Ar draws rhai awdurdodau lleol, mae ysgolion yn talu cyfraniad tuag at ariannu gweithgareddau hefyd, ac mae rhai elusennau ac asiantaethau yn darparu gwasanaethau i ysgolion heb godi tâl ar yr awdurdod na'r ysgol.

4.3 Yn ogystal, daw rhywfaint o gyllid o weithgarwch ar y cyd gyda'r sector gwirfoddol e.e. prosiectau sy'n cynnwys sefydliadau ac asiantaethau megis ASH Cymru, y Groes Goch a Chanolfan i Bobl Ifanc Cwmbrân. Yn ogystal, mae'r mudiadau gwirfoddol hyn yn sicrhau eu cyllid eu hunain gan ystod eang o arianwyr megis y Gronfa Loteri Fawr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, prosiect Ysgolion Iach, Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth (gweler Astudiaeth Achos Prifysgol Abertawe) a phrosiectau ESF megis PRE-VENT, sy'n gweithredu ar draws pedwar awdurdod lleol yn ne ddwyrain Cymru.

4.4 Yn ogystal, mae'r Urdd, mewn partneriaeth â changhennau lleol Mentrau Iaith weithiau, yn darparu cyllid ar gyfer rhai gweithwyr ieuenctid ar draws ysgolion Cymraeg yng Nghymru. Mae gan bob sir swyddog datblygu craidd neu swyddogion sy'n arwain ar chwaraeon, eisteddfodau a chlybiau ieuenctid – aelwydydd.

4.5 Mae'r cyllid yn gysylltiedig mewn ffordd agos gyda threfniadau staffio ac adroddodd awdurdodau lleol am ystod eang o drefniadau staffio ar gyfer eu gweithgareddau gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn yn cynnwys cymysgedd o weithwyr ieuenctid cyfwerth ag amser llawn (FTE)

parhaol yn cael eu hariannu trwy gyfrwng gwariant craidd yr awdurdodau lleol a thrwy gyfrwng ffynonellau megis Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf. Ariannir rhai trefniadau staffio trwy gyfrwng mentrau cyd-adrannol mewn rhai awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae staffio ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yn cynnwys y rhai ar gontractau darparu dros dro neu arbenigol, ynghyd ag amrediad o weithwyr sy'n cael eu hariannu trwy gyfrwng ffynonellau amgen eraill megis y rhai a amlinellir uchod, gan gynnwys mentrau ar y cyd gyda'r sector gwirfoddol.

Gwaith ieuenctid mewn ysgolion a ddarparir trwy gyfrwng cyllid craidd

4.6 Ar hyn o bryd, mae Rhondda Cynon Taf (RCT) yn darparu'r gweithgarwch gwaith ieuenctid mwyaf parhaol a'r lefelau staffio uchaf mewn ysgolion yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu nifer eang y prosiectau sy'n cael eu hariannu o fewn yr awdurdod lleol a'i nodau strategol ehangach o gynorthwyo disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Yn yr 17 o ysgolion uwchradd ar draws RCT, ceir 2 aelod o staff amser llawn, cyfanswm o 34 swydd at ei gilydd. Ariannir yr holl staff trwy gyfrwng cyllid craidd yr awdurdod lleol.

4.7 Mae RCT yn cyflogi Swyddog Cyfranogiad Ieuenctid sy'n darparu gweithgareddau dysgu y tu allan i'r ysgol a gweithgareddau ar ôl ysgol, a Swyddog Ail-ymgysylltu Ieuenctid, sy'n darparu cymorth un i un a gwaith grŵp trwy ddarparu gwasanaethau peripatetig. Mae'r ddau aelod o staff amser llawn yn meddu ar y gallu a'r adnoddau i ddwyn staff eraill ynghyd er mwyn darparu'r ddarpariaeth estynedig e.e. mae staff sy'n darparu gwasanaethau cymunedol yn cynnig darpariaeth mewn ysgolion. Yn ogystal, mae'r staff amser llawn mewn ysgolion yn neilltuo rhywfaint o amser i ddarpariaeth gymunedol. Nododd y PSI nad yw'r gwasanaeth ynghlwm wrth drefniadau cyllido allanol, felly bod modd i hyn wella darpariaeth hyblyg.

4.8 Yng Nghonwy, caiff y ddarpariaeth ei hariannu gan gyllid craidd hefyd ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ariannu'r holl ddarpariaeth achrededig, ac ni fydd ysgolion yn gwneud unrhyw gyfraniad ariannol i'r gweithgareddau a ddarparir. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o weithgareddau gwaith ieuenctid ychwanegol mewn ysgolion trwy gyfrwng Cymunedau yn Gyntaf a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Nod y gweithgareddau hyn yw datblygu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig a'u defnyddio gan ysgolion. Pan oedd prosiectau yn cael eu hariannu gan grant, adroddodd PSI Conwy bod ysgolion yn awyddus i gymryd rhan, ond pan fyddai'r cyllid yn stopio, byddai'r prosiectau yn stopio hefyd. Yn dilyn gwaith ailstrwythuro ddwy flynedd yn ôl, mae cyllid wedi'i dargedu bellach yn cynorthwyo rôl y gweithiwr ieuenctid mewn ysgolion ac mae PSI o'r farn bod y dull hwn yn fwy cynaliadwy.

4.9 Yng Ngheredigion, defnyddiwyd cyllid ESF i ddarparu gweithgareddau gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Er bod hwn wedi dod i ben erbyn hyn, mae'r awdurdod lleol wedi cadw elfennau o'r gwaith ieuenctid mewn ysgolion o hyd ac mae cyllideb y Gwasanaethau Dysgu yn cynnwys eu gweithgareddau craidd nawr. Er bod colli cyllid ESF wedi eu gorfodi i ostwng nifer y staff, mae wedi rhoi ffocws mwy cynaliadwy iddynt trwy gyfrwng cyllid craidd. Adroddodd y PSI mai'r nodau strategol presennol yw sicrhau bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn fwy cynaliadwy 'neu byddai staff talentog yn parhau i symud ymlaen pan fyddai'r cyllid yn dod i ben'. Nododd eu bod yn buddsoddi cryn dipyn o'u hamser mewn hyfforddi staff, felly mae'n wastraff adnoddau os bydd amhariad ar y cyllid drwy'r amser. Yn ogystal, mae bod yn rhan o strategaeth ariannu craidd yr Awdurdod Lleol yn codi proffil gwaith ieuenctid mewn ysgolion.

4.10 Mae sawl awdurdod lleol arall yn cadw gweithwyr ieuenctid amser llawn ym mhob ysgol. Yng Nghaerffili, ceir pedair ysgol sy'n cynnwys gweithiwr ieuenctid parhaol ar hyn o bryd. Mewn sawl achos, roedd gweithiwr ieuenctid yn yr ysgol yn barod ac mae

trefniant ariannu newydd wedi trawsnewid rôl y gweithiwr ieuenctid yn rôl gwaith ieuenctid mewn ysgolion penodedig. Mae tri o blith y pedwar yn gweithio trwy gydol y flwyddyn (yn ystod y gwyliau, maent wedi'u lleoli yn Sefydliad Crymlyn). Yn ogystal, mae gweithwyr teuluoedd wedi'u lleoli yn yr ysgolion (yn ystod y tymor yn unig), gan weithio gyda'r gweithwyr ieuenctid gwahanol a chysylltu gyda phrosiectau perthnasol eraill. Yn Sir Gaerfyrddin, mae gan y 12 ysgol uwchradd weithiwr cymorth ieuenctid amser llawn. Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol yn ariannu gweithiwr ieuenctid amser llawn mewn ysgol anghenion arbennig (ystod oedran 7-16).

4.11 Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau gweithredu traws-adrannol wrth staffio. Er enghraifft, yng Nghasnewydd, ceir 13 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd, sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid. Mae ganddynt ddull gweithredu traws-adrannol ar draws yr awdurdod, gyda'r nod o gydategu ymgysylltu pobl ifanc gydag amrediad o brosiectau cymorth cyffredinol ac arbenigol. Yng Nghonwy, mae 2 weithiwr ieuenctid yn gweithio gyda gweithiwr prosiect delwedd iach yn ôl y gofyn, gan gynnig darpariaeth symudol fel rhan o dîm aml-asiantaeth. Yn Abertawe, ceir 8 gweithiwr ieuenctid amser llawn ar hyn o bryd, y maent yn gysylltiedig ag ysgolion ac yn cael eu cynorthwyo gan adrannau eraill ar fentrau wedi'u targedu, a gweithwyr rhan-amser. Ym Mhowys, mae gweithwyr ieuenctid amser llawn yn dod ynghyd gyda gweithwyr ymyrraeth gynnar a 3 gweithiwr datgysylltiedig sy'n darparu gwaith pontio, er mwyn ymgysylltu gyda'r holl ysgolion yn ogystal â lleoliadau cymunedol.

Dulliau gweithredu sy'n cyfuno'r cyllid

4.12 Tra bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid craidd ar gyfer eu gwaith ieuenctid mewn ysgolion, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrediad o ffynonellau cyllid. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys Caerdydd, lle y daw'r cyllid o grant

Teuluoedd yn Gyntaf yn bennaf – ariannir 50.4% o'r gwasanaeth yn y fath ffordd a chaiff 27.7% o'r Grant Cymorth Refeniw ei neilltuo i'r gwasanaethau ieuenctid ar gyfer darpariaeth. Mae Wrecsam yn darparu rhywfaint o gyllid craidd a daw'r mwyafrif trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf, a daw rhywfaint o gyllid ychwanegol o'r rhwydwaith 14-19. Nododd Wrecsam a Chaerdydd na fydd unrhyw gyllid yn dod o ysgolion yn uniongyrchol. Mae Caerffili yn gweithredu model lle y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ariannu rhannau o'u gwaith ieuenctid mewn ysgolion ac mae ysgolion yn darparu arian cyfatebol ar gyfer yr hanner arall. Mae'r dull gweithredu hwn yn ariannu'r gweithwyr ysgol a'r gweithwyr cyswllt sy'n ymwneud â darparu'r gweithgareddau

4.13 Dechreuodd gwaith ieuenctid Casnewydd mewn ysgolion gyda chyllid Cymorth, ac yna, Teuluoedd yn Gyntaf, a oedd yn gysylltiedig gyda gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb. Yn ogystal, adroddodd y PSI bod rhai ysgolion yn ariannu eu swyddogion ieuenctid eu hunain ar gyfer rolau penodol, a'u bod yn gweithio mewn partneriaeth â nhw er mwyn cyd-fynd gyda'r gweithgareddau hyn.

4.14 Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu llwybr ariannu ychwanegol i rai awdurdodau lleol. Yn Sir Benfro, mae'r gwasanaeth ieuenctid bellach wedi symud i gyllid Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn llenwi bylchau o ran y cyllid ac er mwyn cynnal gweithwyr ieuenctid rhan-amser ym mhob ysgol. Ym Mhowys, defnyddir cyllid Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn ariannu rhai gweithgareddau yn benodol. Felly, caiff 6 o weithwyr ymyrraeth gynnar eu hariannu yn y fath ffordd, tra bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth gwaith ieuenctid cyffredinol mewn ysgolion hefyd, gan ddefnyddio Grant Refeniw Llywodraeth Cymru er mwyn ariannu swyddi gweithwyr datgysylltiedig.

4.15 Mae enghreifftiau ychwanegol o ddulliau gweithredu cyllido cyfunol yn cynnwys Caerdydd, lle y caiff 5 mentor eu hariannu trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf ochr yn ochr â'u 12 gweithiwr

ieuenctid craidd ar gyfer 22 ysgol. Yn Abertawe, mae eu cyllid craidd yn werth tua £1 miliwn a hefyd, maent yn cael symiau sylweddol gan Deuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf, grant refeniw Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Addysg i deithwyr, sy'n cael ei gyfateb gan gyllid ar y cyd gan y cyngor. Ym Mro Morgannwg, daw'r cyllid o botiau amrywiol gan gynnwys grant refeniw y gwasanaeth ieuenctid, grant Teuluoedd yn Gyntaf, grant rhanbarthol 14-19 a chyfraniadau ysgolion. Ym Mlaenau Gwent, ariannir swyddi trwy gyfrwng cyllid gan y cyngor, ynghyd â chyllid Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer swyddi amser llawn mewn ysgolion a gweithiwr iechyd rhywiol.

Cyfraniadau ysgolion a defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion

4.16 Ceir dull gweithredu cyferbyniol i awdurdodau lleol yn gofyn am gyfraniadau gan ysgolion er mwyn darparu gwasanaethau ieuenctid. Yn Ninbych, er enghraifft, bydd pob ysgol yn talu £6,500 bob blwyddyn, a bydd cyllid craidd, Llwybrau Dysgu 14-19 a grant cymorth gwaith ieuenctid yn cyfrannu at hwn er mwyn ariannu gweithwyr ieuenctid. Nododd y PSI bod yr awdurdod lleol wedi bod yn darparu'r gwasanaethau hyn am ddim, ond ei fod yn bellach yn gofyn i ysgolion am gyfraniadau bach er mwyn llenwi'r bylchau o ran y cyllid, a bod hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau 1 i 1 yn bennaf. Adroddodd y PSI bod ysgolion yn 'fodlon talu am hwn os bydd popeth arall wedi methu'. Yn ogystal, mae Dinbych yn gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf trwy gyfrwng eu gwaith gyda phobl ifanc NEET neu'r bobl ifanc hynny y maent mewn perygl o ddatblygu i fod yn NEET.

4.17 Yn Nhorfaen, nododd y PSI a chynrychiolydd arall y gwasanaeth ieuenctid bod eu heffaith wedi lleihau mewn rhai ffyrdd nawr gan bod yn rhaid iddynt godi tâl ar ysgolion, ar sail gorchymyn a wnaethpwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg. Maent wedi mynd o sefyllfa lle'r oeddent yn darparu mewn 6 ysgol yn y bwrdeistref, i

sefyllfa lle y maent yn darparu mewn 3, o ganlyniad i'r taliadau hyn. Yn flaenorol, roeddent yn darparu gwasanaethau yn lle rhodd er mwyn cynorthwyo gyda chostau teithio. Nododd Torfaen bod y taliadau hyn yn cael eu rhoi yn y pot cyllido canolog ac yn cael eu defnyddio ar gyfer achredu, cynllunio a chofrestru. Dim ond talu am ddarpariaeth uniongyrchol a'u staffio y mae grant refeniw yr awdurdod lleol yn ei wneud nawr. Nododd y PSI amharodrwydd ysgolion i dalu am wasanaethau gan ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, ac roedd hon yn thema yr oedd PSI sawl awdurdod lleol arall wedi rhoi sylw iddi.

4.18 Bu'n rhaid i rai Awdurdodau Lleol leihau eu darpariaeth o ganlyniad i faterion cyllido. Yng Ngheredigion, ceir 7 ysgol uwchradd ac mae eu gwasanaethau ieuenctid yn gweithredu mewn 6 ohonynt ar hyn o bryd. Yn flaenorol, roedd gan Geredigion 7 gweithiwr ieuenctid – a chynorthwywyd y swyddi hyn gan gyllid ESF ychwanegol. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi dod i ben erbyn hyn ac mae'r Awdurdod Lleol wedi cyfuno ei adnoddau er mwyn datblygu tair swydd gweithiwr ieuenctid amser llawn. Mae'r unigolion hyn yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos ym mhob ysgol. Yn yr un modd, mae ysgolion Sir Ddinbych yn rhannu 2 weithiwr ieuenctid ar hyn o bryd, ac unwaith eto, mae hyn o ganlyniad i faterion cyllido.

4.19 Cafwyd rhyw syniad o'r sialensiau wrth ymgysylltu gydag ysgolion ynghylch cyllid trwy gyfrwng y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) gan Gastell-nedd Port Talbot, 'mae wedi bod yn anodd ymgysylltu gydag ysgolion am hyn a'u cael i ddeall nad ei ddiben yw ariannu Cynorthwywyr Dysgu yn unig, a bod gwasanaethau ieuenctid yn cynnig model darparu amgen.' Yn ogystal, adroddodd y PSI bod y Cyfarwyddwr Addysg wedi awgrymu ffyrdd eraill o wario'r PDG megis gwaith ieuenctid, ond nid oes modd ei orfodi ac mae angen rhagor o gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn. Roedd PSI Ceredigion yn rhannu'r farn hon hefyd, 'nid yw'r ysgolion yn rhoi unrhyw gyllid i ni trwy PDG – maent yn siarad fel rhywun tlawd. Os byddai

Llywodraeth Cymru yn mynnu bod hyn yn digwydd, byddai hynny o gymorth aruthrol i ni.'

Cyllid trwy gyfrwng Cronfa Gymdeithasol Ewrop

4.20 Adroddodd rhai awdurdodau lleol am ymgysylltu blaenorol gyda chyllid ESF er mwyn cynorthwyo gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn ysgolion. O ran dyfodol cyllid ESF, roedd PSIion nifer o Awdurdodau Lleol o'r farn y byddai hyn yn ffocws ar gyfer ceisiadau ariannu. Awgrymodd rhai y bydd ffocws y rownd gyllido newydd hon yn canolbwyntio ar NEET, felly bydd hyn yn dylanwadu ar y math o ddarpariaeth gwaith ieuenctid i'w datblygu mewn ysgolion. Er enghraifft, mae Conwy yn gweithio ar gyflwyniad am gyllid ESF ar gyfer prosiect cwricwlwm amgen i gychwyn ym mis Medi. Mae'r cyllid am gyfnod o dair blynedd i ddechrau, a bydd yn cynnwys dau weithiwr ieuenctid a fydd ynghlwm wrth ysgolion fel rhan o dîm aml-ddisgyblaethol. Adroddodd Castell-nedd Port Talbot eu bod yn rhoi mwy o ffocws ar gymwysterau y dyddiau hyn, yn hytrach na gweithgareddau cymunedol a ariannwyd trwy ESF yn flaenorol.

5. Monitro prosiectau

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil o ran y ffordd y mae gwasanaethau ieuenctid, yn rhai statudol ac anstatudol, yn monitro eu darpariaeth mewn ysgolion. Mae angen cael data gan gyllidwyr ond hefyd, gan wasanaethau ieuenctid a mudiadau gwirfoddol er mwyn asesu a myfyrio am lwyddiant prosiectau er mwyn pennu a yw'r prosiect yn cael effaith gadarnhaol ac er mwyn dylanwadu ar gynllun modelau darparu yn y dyfodol.

Negeseuon allweddol

- Mae cryn dipyn o waith monitro gan ddefnyddio **amrywiaeth o ddulliau gweithredu** yn bodoli ar draws Cymru er mwyn asesu gweithgarwch ymgysylltu pobl ifanc gyda gweithgareddau gwaith ieuenctid mewn ysgolion
- Caiff **gwerth y prosiectau** a ddarparir ei sicrhau trwy ddadansoddi cofnodion presenoldeb, gwelliannau mewn cyrhaeddiad, y datblygiad a welwyd – holiaduron hunan-effeithlonrwydd, achrediadau a ddyfarnwyd, data ynghylch cyrchfannau, adroddiadau cyffredinol ynghylch agweddau tuag at yr ysgol, ac astudiaethau achos a gasglwyd
- Mae'n anodd crisialu **effaith y sgiliau cymdeithasol/mwy meddal,** ynghyd â'r effaith ar **uchelgais** person ifanc, na fydd efallai yn dod i'r amlwg nes byddant yn gadael addysg ffurfiol
- Ceir potensial i gyflwyno **un system ar gyfer yr holl ysgolion** er mwyn caniatáu gweithgarwch i rannu, cofnodi a rheoli gwybodaeth fonitro
- Mae'n bwysig nad yw gweithgarwch monitro **yn cael effaith negyddol** ar amser cyswllt wyneb yn wyneb rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc

5.2 Gwneir gwaith ar draws Cymru i fonitro darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Defnyddir amrywiaeth eang o ddulliau, wrth i wasanaethau ieuenctid gyflawni eu rhwymedigaethau i gyllidwyr a chyflwyno data ar gyfer Archwiliad Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid bob blwyddyn. Mae'r cyflwyniadau hyn yn adrodd am sawl agwedd ar ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid; y niferoedd sy'n ymgysylltu, nifer yr achrediadau a gyflawnir, gan

gynnwys dadansoddiad yn ôl oedran a rhyw, a'r math o weithgareddau a ddarparir.

5.3 Caiff dadansoddiad o niferoedd y staff a lefel eu cymhwyster, a dadansoddiad o'r gyllideb ei gynnwys hefyd, gan arwain at drosolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru fesul awdurdod lleol, y maent oll ar gael i'r cyhoedd ar wefan StatsCymru.

5.4 Amlygir prosiectau mewn ysgolion, fodd bynnag, mae'r archwiliad yn mesur y niferoedd sy'n ymgysylltu gyda'r gwasanaeth a chyfanswm yr oriau ymgysylltu. Yr unig arwydd o'r effaith yw canran yr aelodau sy'n sicrhau achrediadau, heb unrhyw arwydd o'r effaith ar ganlyniadau mwy ansoddol a 'mwy meddal'.

Monitro'r dulliau gweithredu a ddefnyddir

5.5 Mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn monitro eu gweithgareddau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu, wrth i ddata monitro gael ei gasglu bob mis ac wrth i weithwyr ieuenctid gyflwyno adroddiadau ynghylch perfformiad targedau. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys manylion megis nifer y sesiynau a fynychwyd, y sesiynau un-i-un a ddarparwyd a'r niferoedd sy'n ymgysylltu gyda phrosiectau. Yn ogystal, defnyddir atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau er mwyn mesur canlyniadau meddal.

5.6 Mae rhai o'r offerynnau a ddefnyddir er mwyn monitro prosiectau gan wasanaethau ieuenctid yn cynnwys Graddfa Rickter, Dangos Llwyddiant, Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli QES, Seren Canlyniadau, Offeryn Proffilio Bod yn Agored i Niwed, asesiad Fy Myd a Matrics Sefydliad Rowntree. Ni cheir dull gweithredu cytunedig a weithredir mewn ffordd gyson ar draws yr holl awdurdodau lleol, ac roedd rhai yn ystyried mabwysiadu dull gweithredu amgen adeg ysgrifennu hwn. Mae'r detholion isod yn dangos y dulliau gweithredu amgen a adroddwyd gan wahanol awdurdodau lleol.

‘Nod y gwasanaeth ieuenctid yw datblygu dull seren ar sail canlyniadau er mwyn mesur datblygiad unigolion; i'w ddefnyddio ar ddechrau'r rhaglen, wrth ei gwblhau a bydd yn cael ei ailystyried yn nes ymlaen. Y nod yw peilota'r syniad yn y dyfodol agos – ni fyddai'n berthnasol ar gyfer yr holl waith ieuenctid – ond byddai modd ei ddefnyddio mewn ysgolion.’

‘Defnyddir cyfres o ganlyniadau dysgu cofnodedig ar QES. Gofynnir i ysgolion am adborth ynghylch elfennau megis ymddygiad a phresenoldeb.'

'Rydym yn ystyried defnyddio Graddfa Rickter yn y dyfodol er mwyn gwella cysondeb gweithgarwch monitro.'

‘Mae Rhondda Cynon Taf yn defnyddio'r dull Proffilio Agored i Niwed er mwyn gwerthuso a yw'r cymorth a ddarparir yn gweithio i bobl ifanc. Mae'n galluogi'r gwasanaethau i fonitro lefelau cyfranogi pobl ifanc agored i niwed ar draws yr holl ddarpariaeth ac mae'n caniatáu addasiadau yn ôl yr angen ac er mwyn sicrhau bod darparwyr a staff yn atebol am effaith eu gwaith.
Canlyniadau bwriadedig:

- *Canlyniadau addysgol gwell*
- *Lles cymdeithasol ac emosiynol gwell*
- *Lleihau'r bylchau o ran presenoldeb a chyrhaeddiad ymhlith grwpiau agored i niwed*
- *Mae modd i bobl ifanc fanteisio ar eu hawliau*

Dangosyddion perfformiad:

- *Nifer a chanran y bobl ifanc agored i niwed sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth a ddarparir*
- *Nifer a chanran y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon*
- *Nifer a chanran y bobl ifanc sy'n sicrhau cymhwyster ystyrlon h.y. yn cyfrannu at drothwy lefel 2.'*

5.7 Mae ffurfiau monitro eraill a adroddwyd gan PSIion yn cynnwys cofnodion presenoldeb, gwelliannau mewn cyrhaeddiad, y datblygiad a sicrhawyd – holiaduron hunan-effeithlonrwydd, achrediadau a ddyfarnwyd, data ynghylch cyrchfannau, (yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4), adroddiadau cyffredinol ynghylch gwelliant mewn agwedd tuag at yr ysgol. Yn ogystal, caiff astudiaethau achos eu datblygu er mwyn rhoi syniad o werth y prosiectau a ddarparir mewn ysgolion ar draws y gwahanol awdurdodau lleol.

5.8 Mae hwyluso dilyniant i bobl ifanc a gwella eu lles yn allweddol. Fodd bynnag, adroddodd PSIion nad yw hi'n hawdd casglu gwybodaeth am sgiliau cymdeithasol/mwy meddal, ynghyd ag unrhyw gynnydd mewn uchelgais person ifanc. Gyda natur wirfoddol gwaith ieuenctid yn amlwg bob amser, roedd rhai PSIion yn cydnabod bod 'mynychu sesiynau yn ganlyniad cadarnhaol'.

5.9 Mae dangos tystiolaeth o'r canlyniadau meddal hyn yn cynnwys amrediad o weithgareddau. Mae modd i hyn gynnwys gweithwyr ieuenctid yn ysgrifennu adroddiadau ar ddiwedd pob sesiwn, gan ganolbwyntio ar gynllun gweithredu/ymgysylltu unigolyn. Mae mudiadau gwirfoddol sy'n gwneud gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn defnyddio dulliau gweithredu tebyg hefyd. Er enghraifft, mae'r Groes Goch yn cofnodi'r hyder y mae pobl ifanc yn barnu eu bod yn meddu arno am fater cyn cyflawni'r sesiwn ac wrth ei chwblhau. Yna, caiff y data hwn ei ddadansoddi yn ganolog er mwyn cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol. Mae ASH Cymru yn casglu data monitro hefyd, gan gynnwys hunanasesiad gan y darparwr, lleoliad, nifer y cysylltiadau, ac adborth gan athrawon.

Pwysigrwydd monitro

5.10 Mae budd casglu a dadansoddi data monitro mewn ffordd effeithiol er mwyn cynorthwyo gwelliant ac er mwyn cael tystiolaeth o'r effaith ar gyfer prosiectau yn rôl pwysig ar gyfer gweithwyr ieuenctid, ac mae'n cadarnhau'r manteision i ysgolion a chymunedau i ymgysylltu gyda gwaith ieuenctid. I rai PSIion, mae monitro effeithiol yn caniatáu iddynt i hyrwyddo effaith bosibl eu gwaith ieuenctid mewn prosiectau ysgolion yn well.

5.11 Mae rhai ysgolion a gwasanaethau ieuenctid yn cyfarfod bob mis er mwyn asesu'r cynnydd ac unrhyw effaith ar y person/au ifanc sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol neu'r rhai sy'n cael eu heffeithio mewn ffordd anuniongyrchol h.y. aelodau eraill y dosbarth. Mae

modd i'r cyfarfodydd cynnydd hyn arwain at bobl ifanc yn symud ymlaen i weithgareddau eraill a ddarparir gan y gwasanaethau ieuenctid, gan gynnwys ymgysylltu un-i-un arbenigol, wrth i bobl ifanc eraill symud yn ôl i addysg amser llawn neu brif ffrwd.

5.12 Mae ysgolion yn casglu data sy'n cynorthwyo i ddynodi pobl ifanc a'u gweithgarwch ymgysylltu, ond mae'n amlwg bod data yn cael ei gasglu mewn ffordd wahanol ar draws Cymru gyfan ac o fewn awdurdodau lleol hefyd. Cynigiodd sawl PSI bod potensial i gyflwyno un system i bob ysgol er mwyn caniatáu trefniadau i rannu, cofnodi a rheoli gwybodaeth yn yr awdurdodau lleol hynny nad yw hyn mewn grym ynddynt eisoes. Roedd PSIion o'r farn y byddai modd cyflwyno'r system hon ar lefel genedlaethol er mwyn ei rhannu ar draws Cymru gyfan, ac y byddai hyn yn arwain at fwy o gysondeb.

5.13 Er y galwyd am fwy o gydlyniad ar gyfer systemau monitro, mynegwyd pryderon gan PSIion ynghylch y lefelau monitro uchel y bernir eu bod yn ofynnol ar gyfer gwasanaethau ieuenctid. Er bod modd i'r prosesau hyn gynorthwyo wrth gynnig yr ymdrech i wella gwasanaethau yn barhaus, roedd rhai yn teimlo bod modd iddynt leihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar gynnal gweithgareddau ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn gwirionedd.

5.14 Mae'r corff cynrychioliadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, CWVYS, yn cael adborth ynghylch gweithgarwch ymgysylltu ei aelodau gydag ysgolion. Gyda CWVYS yn gweithredu grwpiau consortiwm rhanbarthol o'i sefydliadau, sy'n galluogi i wybodaeth gael ei rhannu, byddai modd i weithredoedd consortia tebyg, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid ar draws rhanbarth Cymru, gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid mwy cydlynol ar draws Cymru. Fodd bynnag, cydnabyddir bod problemau yn codi wrth rannu gwybodaeth o'r fath, ynghylch cyfrinachedd cronfa ddata o'r fath a'r mynediad iddi.

5.15 Nodwyd mai'r ateb i weithrediad llwyddiannus posibl y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) yw bod 'yn ddull gweithredu system gyfan lle y caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio mewn ffordd fwy eglur a lle y bydd angen i'r holl asiantaethau a'r darparwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc gydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol i bobl ifanc' (Llywodraeth Cymru, 2013). Er bod PSIion wedi adrodd bod y data a'r offerynnau a ddefnyddir er mwyn rhoi sylw i'r fframwaith ar draws Cymru yn gwahaniaethu rhwng awdurdodau lleol, maent yn cynnwys yr un elfennau cydrannol. Mae'n bosibl y byddai modd i weithgarwch er mwyn monitro gwaith ieuenctid mewn ysgolion gael budd gan fframwaith/dull gweithredu tebyg yn y dyfodol.

6. Perthnasoedd gwaith

6.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwaith ymchwil o ran sut y caiff perthnasoedd gwaith rhwng y gwasanaeth ieuenctid, ysgolion a phartneriaid eraill eu sefydlu a'u rheoli.

Negeseuon allweddol

- Mae'r cysylltiadau gydag ysgolion ar eu cryfaf pan fyddant wedi **hen ymsefydlu** ac mae **ymddiriedaeth** wedi datblygu.
- Mae **lefel y gwaith a wneir i fonitro** gwaith ieuenctid ac **amlder y trefniadau adrodd** a'r cyfarfodydd rhwng gweithwyr ieuenctid a staff ysgolion yn amrywio'n fawr iawn.
- Rhaid i'r gwasanaeth ieuenctid gysylltu â phob ysgol **yn unigol** ac ni all gynnig un dull gweithredu 'sy'n addas i bawb'.
- Mae **parhad ariannol** yn allweddol fel bod sefydlogrwydd yn bodoli o ran yr hyn a gynigir i'r bobl ifanc.
- Mae **sialensiau** yn bodoli o hyd er mwyn datblygu a chynnal partneriaethau ac er mwyn sicrhau bod y negeseuon cadarnhaol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid yn cyrraedd ysgolion

6.2 Disgrifiodd sawl un o'r rheolwyr gwasanaeth ieuenctid y ffordd y maent yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd strategol neu'n gwneud cyflwyniad rheolaidd i grŵp o benaethiaid yn ystod cyfarfodydd clwstwr neu ddigwyddiadau tebyg. Roedd hwn yn ddull effeithiol o gynnal cyswllt ar lefel strategol gyda'r ysgolion, er bod sialensiau yn bodoli o hyd wrth sicrhau bod y negeseuon hynny yn cyrraedd yr ysgolion wedi hynny.

6.3 Gwnaeth nifer o'r unigolion yr ymgynghorwyd â nhw esbonio ei bod yn cymryd amser i sefydlu ac i gynnal cysylltiadau gydag ysgolion, a bod hyn yn rhywbeth arbennig o heriol i'r adrannau hynny mewn awdurdodau lleol yr oeddent wedi wynebu gostyngiad yn nifer eu staff yn ddiweddar. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn eistedd yn yr adrannau addysg yn yr awdurdodau lleol, sy'n hwyluso'r cysylltiadau gydag ysgolion, ond nid yw hyn yn wir ym mhob man.

6.4 Mae'r cysylltiadau gydag ysgolion ar eu cryfaf pan fyddant wedi hen ymsefydlu. Pan fo'r cysylltiadau hynny wedi cael eu datblygu dros nifer o flynyddoedd, mae'r ysgolion yn 'ymddiried' yn y gweithwyr ieuenctid ac yn deall eu rôl yn yr ysgol. Yna, bydd y bobl ifanc eu hunain yn cydnabod y gweithiwr ieuenctid hefyd ac mae modd gweld argymhelliad yng nghymuned y disgyblion bod modd ymddiried yn y gweithiwr ieuenctid, ac mae'r argymhelliad hwn yn digwydd wrth iddynt sôn wrth ei gilydd. Nid yw hon yn sefyllfa sy'n gallu digwydd dros nos, ac nid yw'n dasg sydd fyth wedi cael ei chwblhau ychwaith, fodd bynnag, unwaith y caiff enw da y gweithiwr ieuenctid ei sicrhau ymhlith staff yr ysgol, 'bydd y cyfeiriadau yn dechrau dod i mewn'.

6.5 Ar ôl i'r perthnasoedd gydag ysgolion gael eu sefydlu, mae perygl y gallai'r gweithiwr ieuenctid gael eu tynnu i mewn i ddarparu gweithgareddau eraill yn yr ysgol. Gwnaeth sawl gweithiwr ieuenctid ddisgrifio'r dasg o sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn barod i helpu gyda gweithgareddau amrywiol yn yr ysgol, ond bod yn ofalus i beidio cael eu tynnu i mewn i'r tasgau hynny sy'n tynnu eu sylw oddi ar ddarparu gwaith ieuenctid yn yr ysgolion.

6.6 Mae lefel y gwaith o fonitro darpariaeth gwaith ieuenctid gan dîm rheoli yr ysgol ac amlder trefniadau adrodd a chyfarfodydd rhwng y gweithiwr ieuenctid a staff yr ysgol yn amrywio'n aruthrol. Gwnaeth un gweithiwr ieuenctid a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgol ddisgrifio sefyllfa lle y gwelir cyfarfodydd anffurfiol ad hoc rhyngddo ef a'r pennaeth, ond heb unrhyw dargedau ffurfiol neu strwythurau adrodd mewn grym. Mae casglu a rhannu tystiolaeth am yr holl ddarpariaeth, er enghraifft nodiadau arsylwi am yr holl sesiynau a ddarparwyd, ffurflenni am y datblygiad a sicrhawyd ar gyfer yr holl bobl ifanc a welwyd, a chyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr ysgol er mwyn trafod newidiadau mewn ymddygiad a phresenoldeb, yn arfer mwy cyffredin a ddisgrifiwyd gan rai gweithwyr ieuenctid.

6.7 Mae hyrwyddo gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn ymwneud â dangos bod gweithiwr ieuenctid yn dwyn amrediad o wahanol

sgiliau i'r ysgolion. Adroddodd PSIion eu bod yn meithrin perthnasoedd gyda phobl ifanc mewn gwahanol ffordd a'u bod yn defnyddio gwahanol ddulliau gweithredu i'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gan athrawon. Mewn nifer o achosion, mae'r gweithiwr ieuenctid yn gysylltiedig gyda'r clwb ieuenctid hefyd, felly mae'r bobl ifanc yn gwybod sut i fanteisio ar gymorth arall y tu allan i'r ysgol.

6.8 Mae nodweddion llwyddiannus allweddol perthynas waith dda rhwng y gwasanaeth ieuenctid ac ysgolion yn amrywio o ardal i ardal ac o ysgol i ysgol. Fodd bynnag, gwelwyd rhai nodweddion cyffredin yn codi dro ar ôl tro yn yr ymgynghoriadau ar gyfer yr astudiaeth hon, sef,

- Mae'n haws meithrin cysylltiadau gydag ysgolion pan fo'r gwasanaeth ieuenctid yn eistedd o fewn yr adran addysg;
- Rhaid i'r gwasanaeth ieuenctid gysylltu â phob ysgol yn unigol ac nid oes modd iddo gynnig un dull gweithredu 'sy'n addas i bawb'. Mae'n well gan rai ysgolion achredu, er enghraifft, ac mae'n well gan eraill fanteisio ar waith un i un uniongyrchol, ac mae'n well gan eraill ddull gweithredu wedi'i seilio ar y dosbarth cyfan.
- Mae angen buddsoddi amser yn y dasg o godi proffil y gwasanaeth a bod yn amlwg iawn i ysgolion (presenoldeb mewn sioeau teithiol, digwyddiadau ac ati.);
- Mae'n bwysig sicrhau bod staff y gwasanaeth ieuenctid yn siarad gyda'r bobl gywir yn yr ysgol er mwyn hyrwyddo perthnasoedd newydd ac er mwyn cynnal y rhai sy'n bodoli eisoes – felly, mae'n ymwneud ag adnabod y person cywir y dylid cael cyswllt gyda nhw, sy'n cynnwys ysgrifennydd yr ysgol, y pennaeth blwyddyn a'r pennaeth.
- Mae cyswllt rhwng y prif swyddog ieuenctid (neu'r unigolyn cyfatebol) a phenaethiaid yr ardal yn arbennig o fuddiol wrth feithrin y cysylltiadau rhwng ysgolion, ond y cam cyntaf yw

hwn yn unig, gan bod yn rhaid i wybodaeth dreiddio trwy ysgolion.

- Ar ôl meithrin cyswllt a phan fo'r gwaith ieuenctid mewn ysgol yn cychwyn, nodwyd bod y pwyntiau hyn yn ffactorau allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant.
- 'Lle dynodedig' i'r gweithiwr a dealltwriaeth eglur yr ysgol o rôl y gweithiwr ieuenctid, gydag eglurder ynghylch cyfanswm y mynediad 'galw heibio' a'r broses gyfeirio i'w defnyddio gan staff addysgu.
- Mae parhad ariannol yn allweddol fel bod sefydlogrwydd o ran yr hyn a gynigir i'r bobl ifanc. Dylai'r ddarpariaeth bara o leiaf un cylch academaidd, gan gynnwys y gwyliau.
- Neilltuo canran o amser y gweithiwr ieuenctid mewn ysgol er mwyn hyrwyddo cysylltiadau yn yr ysgol.
- Y perthnasoedd rhwng person ifanc a gweithiwr ieuenctid i fod yn gadarnhaol, ac yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth.
- Gweithwyr ieuenctid o bob ysgol mewn ardal i gael eu dwyn ynghyd mor aml ag y bo modd fel bod dysgu gan gymheiriaid yn digwydd ac er mwyn i'r gweithwyr gael cymorth tîm.

6.9 Er gwaethaf enghreifftiau o arferion da a diddorol ar draws Cymru, gan nad oes canllawiau statudol yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer gwaith ieuenctid mewn ysgolion, roedd pryder nad yw partneriaethau yn digwydd yn naturiol, a'i fod 'yn ddull gweithredu di-drefn iawn ar hyn o bryd – mae'n ymwneud â'r sawl yr ydych yn eu hadnabod yn hytrach na'r yr hyn y mae ei angen ar bobl ifanc'.

6.10 Mae hyrwyddo gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn ymwneud â dangos bod gweithiwr ieuenctid yn dod ag amrediad o wahanol sgiliau i'r ysgolion. Maent yn meithrin perthnasoedd gyda phobl ifanc mewn gwahanol ffordd ac maent yn defnyddio gwahanol ddulliau gweithredu i'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gan athrawon. Mewn nifer o achosion, mae'r gweithiwr ieuenctid yn

gysylltiedig gyda chlwb ieuenctid hefyd, felly mae'r bobl ifanc yn gwybod sut i fanteisio ar gymorth arall y tu allan i'r ysgol.

6.11 Mae'r berthynas rhwng ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid yn digwydd o fewn cyd-destun y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF). Nod y fframwaith hwn yw helpu asiantaethau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant, gwasanaethau ieuenctid a Gyrfa Cymru i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Mae'r fframwaith yn cynnwys chwe elfen gydrannol, a gynlluniwyd i fod yn effeithiol wrth gynyddu gweithgarwch ymgysylltu a dilyniant pobl ifanc. Eu nod yw:

- nodi pobl ifanc y maent yn y perygl mwyaf o ymddieithrio
- darparu trefniadau gwell i gydlynu a broceru cymorth
- darparu trefniadau cryfach er mwyn olrhain ac ar gyfer pontio pobl ifanc trwy'r system
- sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc
- cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a'r cyfleoedd i sicrhau cyflogaeth
- darparu mwy o atebolrwydd er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl ifanc.
- Rhoddwyd cyfarwyddyd i awdurdodau lleol (ALlau) i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer gweithrediad y Fframwaith, gan sicrhau cydweithio agos rhwng partneriaid.

7. Rhwystrau i waith ieuenctid mewn ysgolion

7.1 Gwnaeth yr unigolion yr ymgynghorwyd â nhw nodi nifer o ffactorau sy'n creu rhwystrau wrth ddarparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Mae'r adran hon yn amlinellu'r rhwystrau hyn a phan fo modd, mae'n cynnig awgrymiadau er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn.

Negeseuon allweddol

Mae'r prif rwystrau sy'n atal darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion fel a ganlyn:

- Cyllid:
  - Mae awdurdodau lleol yn wynebu **toriadau ariannol**, sy'n lleihau gallu y gwasanaethau ieuenctid i gynnig darpariaeth.
  - Mae sialensiau wrth sicrhau cyllid ar gyfer y tymor hir yn golygu **nad oes modd** i wasanaethau ieuenctid **wneud cynlluniau ar gyfer y tymor hwy** er mwyn cynnig darpariaeth.
- Tybiaethau o waith ieuenctid:
  - Mae modd i **ddiffyg gwybodaeth** am waith ieuenctid arwain at dybiaethau **negyddol.**
  - Yn ogystal, mae modd i dybiaethau negyddol arwain at ddisgwyliadau **afrealistig** o waith ieuenctid.
  - Mae gofyn i wasanaethau ieuenctid '***brofi eu gwerth***' yn rheolaidd a hyrwyddo manteision gwaith ieuenctid.
- Blaenoriaethau ysgolion:
  - Mae'r **pwysau ar ysgolion** i sicrhau perfformiad academaidd yn golygu bod ysgolion yn canolbwyntio yn fwy ar **ganlyniadau caled** (e.e. cyrhaeddiad a chymwysterau).

Cyllid

7.2 Cyllid oedd un o'r materion mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd ato fel rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Fel y nodwyd ym mhennod 4, mae awdurdodau lleol yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn wynebu toriadau i'r cyllid hwn. Mae'r toriadau ariannol hyn yn golygu y bu'n rhaid i wasanaethau

ieuenctid awdurdodau lleol ostwng niferoedd eu staff. Mae'r gostyngiad hwn yn niferoedd y staff yn golygu bod capasiti y gwasanaethau ieuenctid yn lleihau, ac mae modd i hyn gyfyngu ar swm ac ansawdd y gwaith ieuenctid y mae modd ei ddarparu. Felly, mae argaeledd cyllid yn cael effaith fawr ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

'Mae'r hyn y mae modd ei ddarparu yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.'

7.3 Mae modd i'r broses o sicrhau cyllid er mwyn darparu gwasanaethau ieuenctid fod yn un heriol. Yn aml, ni all gwasanaethau ieuenctid sicrhau cyllid ar gyfer y tymor hir. Er enghraifft, esboniodd un PSI bod y gwasanaeth ieuenctid yn dibynnu ar gyllid allanol. Bob blwyddyn, mae gofyn iddo adolygu ei gyllid, sy'n golygu mai dim ond darpariaeth gwaith ieuenctid ar gyfer y flwyddyn honno y mae modd iddo ei gynllunio. Mae'r ansicrwydd hwn yn atal gwasanaethau ieuenctid rhag gwneud cynlluniau ar gyfer y tymor hir o ran darparu eu gwaith ieuenctid.

7.4 Er bod awdurdodau lleol yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, fel yr adroddwyd uchod, nid yw'r cyllid hwn ar gyfer gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn benodol. Er mwyn lleihau cyllid fel rhwystr sy'n atal gwaith ieuenctid, awgrymodd un person a gyfwelwyd y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno cyllid sy'n targedu gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn uniongyrchol.

Tybiaethau o waith ieuenctid

7.5 Mae tybiaethau ysgolion o waith ieuenctid yn cael effaith arwyddocaol ar berthnasoedd rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion. Mae ysgolion sy'n tueddu i werthfawrogi gwaith ieuenctid yn fwy tebygol o fod wedi datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda gwasanaethau ieuenctid dros gyfnod hir.

7.6 Mae'r tybiaethau cyffredinol o waith ieuenctid wedi gwella dros y blynyddoedd ac yn gyffredinol, roedd PSIion yn gadarnhaol o ran eu hasesiad o ddangos eu gwerth i ysgolion. Fodd bynnag,

nododd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil hwn bod 'rhywfaint i'w wneud o hyd' er mwyn datblygu'r effaith flaenorol a newid tybiaethau ynghylch potensial gwaith ieuenctid ymhellach.

7.7 O bryd i'w gilydd, mae modd i dybiaeth anghywir ynghylch yr hyn y mae gweithwyr ieuenctid yn ei wneud, beri i ysgolion gael disgwyliadau afrealistig o waith ieuenctid. Yn ogystal, mae modd iddo beri i ysgolion beidio gwerthfawrogi gwaith ieuenctid, ac i ymgysylltu yn llai gyda gwasanaethau ieuenctid.

'Rhaid i chi brofi eich gwerth mewn ysgol.'

7.8 Yn aml, bydd y tybiaethau anghywir hyn o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth ynghylch rôl gweithiwr ieuenctid a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig. O ganlyniad, amlygodd nifer o PSIion y ffordd y mae gofyn i wasanaethau ieuenctid 'brofi eu gwerth' yn rheolaidd, gan hyrwyddo manteision gwaith ieuenctid. Mae hyn yn awgrymu'r angen i wella proffil gwaith ieuenctid a'r ddealltwriaeth ohono, a'r effeithiau y mae modd iddo eu cael. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig bod gwasanaethau ieuenctid yn sicrhau eu bod yn dangos tystiolaeth o'r effaith y mae eu gwaith ieuenctid yn ei gael ar bobl ifanc, a sut y mae hyn o fudd i'r ysgolion.

7.9 Gwnaeth y PSIion a gyfwelwyd gynnig enghreifftiau o'r ffordd y mae eu gwasanaeth ieuenctid yn hyrwyddo eu gwaith ieuenctid. Roedd un enghraifft yn cynnwys dangos bod gweithwyr ieuenctid yn dwyn amrediad o wahanol sgiliau i ysgolion, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau gweithredu i'r rhai a ddefnyddir gan athrawon, sy'n eu galluogi i feithrin perthnasoedd gyda phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd.

7.10 Mae enghreifftiau eraill o'r ffordd y mae gwasanaethau ieuenctid yn hyrwyddo eu gwaith ieuenctid yn cynnwys y canlynol:

- rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau mewn adroddiadau tymhorol i ysgolion;

- anfon llythyr cynnig i bob ysgol er mwyn amlinellu'r math o ddarpariaeth y mae modd i'r gwasanaeth ieuenctid ei gynnig;
- Cyfarfod gyda phenaethiaid a dirprwy benaethiaid er mwyn esbonio'r hyn y gall gwaith ieuenctid ei gynnig;
- Rhoi cyflwyniadau i ysgolion sy'n dangos yr hyn y mae gweithwyr ieuenctid yn ei wneud a sut y mae modd iddynt gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ac ysgolion.

'Mae'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn cael ein hystyried o ddifrif.'

Blaenoriaethau ysgolion

7.11 Mae modd i wahanol agendâu rhwng ysgolion a gwasanaethau ieuenctid fod yn rhwystr wrth ddarparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Yn aml, caiff ysgolion eu barnu ar sail perfformiad academaidd eu disgyblion. Felly, mae'n ymddangos bod cryn bwysau yn cael ei roi ar ysgolion i gyflawni eu targedau academaidd. Yn ôl y PSIion, mae'r pwysau ar ysgolion mewn perthynas â'u canlyniadau caled yn golygu bod ysgolion yn canolbwyntio yn fwy ar gyrhaeddiad. Felly, efallai y bydd llai o gyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyrhaeddiad yn uniongyrchol.

7.12 Er hyn, adroddir bod gan ysgolion ddiddordeb cyffredinol yn yr hyn sydd gan waith ieuenctid i'w gynnig iddynt. Mae'r pwysau ar ysgolion i sicrhau perfformiad academaidd yn golygu na fydd ysgolion yn gweld manteision gweithgareddau gwaith ieuenctid nad oes ganddynt ganlyniadau achrededig efallai. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu'r angen i wasanaethau ieuenctid hyrwyddo'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig, ac yn arbennig, i ddangos sut y mae gwaith ieuenctid o fudd i ysgolion.

'Ar brydiau, mae'n eithaf anodd cael lle mewn cwricwlwm sydd eisoes yn llawn iawn, a chynnig darpariaeth amgen.'

8. Casgliadau

8.1 Mae'r adran hon yn amlinellu casgliadau'r ymchwil.

Negeseuon allweddol

Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- Manteision:
  - Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn **llwyddo i gynnig amrediad o fanteision** i bobl ifanc, ysgolion a chymunedau yng Nghymru.
  - Mae'n ychwanegu **gwerth** i'r cwricwlwm statudol ac mae'n cyfrannu at lefelau **cyrhaeddiad** a **phresenoldeb** uwch, gan roi sylw i faterion sy'n ymwneud â phobl ifanc NEET.
  - Mae cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid wedi cyfrannu at wella **sgiliau academaidd** a **sgiliau meddal** pobl ifanc, ac mae wedi **codi eu huchelgais**.
  - Mae **partneriaethau agos** rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn helpu pobl ifanc i wneud **cyfraniad cadarnhaol** i'w cymunedau.
- Sialensiau:
  - Mae **toriadau ariannol** yn effeithio ar y ddarpariaeth mewn nifer o awdurdodau lleol, gan gael effaith ar **allu** y gwasanaethau ieuenctid i **gynnal** y ddarpariaeth.
- Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol:
  - Mae angen **sefydlogrwydd ariannol**, gwaith **monitro** mwy cydlynol ac effeithiol, **rhwydweithio** a **hyrwyddo** gwasanaethau ieuenctid er mwyn sicrhau bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cadw gafael ar ei allu i gynnig **manteision** i **bobl ifanc** ar draws Cymru.

8.2 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth yn dangos bod amrywiaeth eang o waith ieuenctid yn digwydd mewn ysgolion ym mhob awdurdod lleol ar draws Cymru. Caiff y gwasanaethau ieuenctid hyn eu cynorthwyo gan ystod eang debyg o strwythurau ariannu a staffio er mwyn darparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion.

8.3 Mae amrediad o ffynonellau cyllid ychwanegol megis Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, ESF, mudiadau gwirfoddol a

chyllid gan rai ysgolion, yn ychwanegu at y cyllid craidd gan awdurdodau lleol. Mae'r amrywiaeth hon o ran cyllid yn sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid yn cynnal gwaith ieuenctid mewn ysgolion ar draws yr holl awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

8.4 Mae tystiolaeth ansoddol gan ystod eang o randdeiliaid yn awgrymu bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cynorthwyo'r cwricwlwm statudol, ei fod yn ei gyfoethogi a'i fod yn cynnig amrediad o fanteision i bobl ifanc, ysgolion a'r gymuned ehangach. Elfen hanfodol y gwaith ieuenctid hwn, y cyfeiriwyd ato gan bob PSI a rhanddeiliaid eraill, yw gweithgarwch ymgysylltu gwirfoddol pobl ifanc.

8.5 Mae hwn yn ffactor allweddol yn narpariaeth, cynaladwyedd ac effaith gadarnhaol gwaith ieuenctid. Mae'r holl awdurdodau lleol a'r mudiadau gwirfoddol yn rhoi ffocws cadarn ar gynllunio gwasanaethau sy'n addas i anghenion cymorth pobl ifanc, ac sy'n cysylltu gyda'u diddordebau a'u huchelgais.

8.6 Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cynnig dull gweithredu amgen a chyflenwol sy'n ychwanegu gwerth i addysg ffurfiol. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn ystod eang y gweithgareddau a ddarparir mewn ysgolion a'r manteision yr adroddir eu bod yn cael eu sicrhau ar gyfer pobl ifanc, athrawon, ysgolion a'r gymuned ehangach.

8.7 Mae ymgysylltu gyda gwaith ieuenctid wedi cyfrannu at wella sgiliau meddal a sgiliau academaidd pobl ifanc, gan godi eu huchelgais a'u gweithgarwch ymgysylltu gydag addysg a'r gymuned ehangach, a'u galluogi i fanteisio ar fathau eraill o gymorth a llwybrau datblygu.

8.8 Mae tystiolaeth ansoddol yn awgrymu bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cyfrannu at leihau'r siawns y bydd pobl ifanc yn datblygu i fod yn NEET trwy godi eu huchelgais addysgol, annog eu diddordebau a chynnig cymwysterau cwricwlwm amgen er mwyn gwella cyfleoedd datblygu.

8.9 Mae'r manteision hyn yn cysylltu gyda manteision ehangach a adroddwyd ar gyfer ysgolion a staff ynghylch lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb gwell a gostyngiad mewn ymddygiad anystywallt yn yr ystafell ddosbarth, ynghyd â chyfle i feithrin sgiliau a deunyddiau newydd. Mae partneriaethau agos gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol gyda mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn helpu pobl ifanc i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau.

8.10 Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cynnig dull gweithredu cyflenwol i addysg ffurfiol, sy'n cynnig nifer o fanteision i bobl ifanc, ysgolion a chymunedau. Fodd bynnag, er mwyn i'r manteision hyn gael eu sicrhau, mae'n bwysig bod darpariaeth gwaith ieuenctid yn cyd-fynd gyda phatrymau, blaenoriaethau ac ethos ysgolion.

8.11 Mae gwasanaethau ieuenctid wedi cydnabod bod ymgysylltu llwyddiannus yn mynnu eu bod yn troi at bob ysgol yn unigol. Mae'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion ar eu cryfaf pan fyddant wedi hen ymsefydlu a phan fo ymddiriedaeth wedi datblygu rhwng unigolion allweddol, a gwelir tystiolaeth o bartneriaethau llwyddiannus ar draws Cymru.

8.12 Felly, mae hyrwyddo'r manteision hyn sy'n deillio o waith ieuenctid mewn ysgolion yn hanfodol wrth sicrhau a chynnal tybiaethau cadarnhaol o waith ieuenctid. Dylai dangos tystiolaeth o'r effaith mewn ffordd effeithiol helpu i hyrwyddo manteision gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Er y ceir tystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau ieuenctid, os nad pob un ohonynt, yn monitro eu heffaith, ni cheir dull gweithredu cytunedig a weithredir mewn ffordd gyson ar draws yr holl awdurdodau lleol.

8.13 Felly, ceir potensial y gallai monitro gwaith ieuenctid mewn ysgolion gael budd gan ddull gweithredu wedi'i seilio ar system sy'n cael ei defnyddio a'i chydnabod ar lefel genedlaethol, a fyddai'n caniatáu i wasanaethau ieuenctid fesur eu heffaith a dangos eu gwerth mewn ffordd effeithiol.

8.14 Gallai un system genedlaethol roi sylw i'r pryderon a fynegwyd gan rai PSIion ynghylch y ffaith bod mwy o waith monitro yn cael effaith negyddol ar amser cyswllt wyneb-yn-wyneb rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc. Yn ogystal, gallai ddatblygu dull gweithredu cytunedig er mwyn mesur yr effaith ar sgiliau mwy meddal, uchelgais a lles pobl ifanc sy'n ymgysylltu gyda phrosiectau gwaith ieuenctid.

8.15 Er bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cynnig ystod eang o fanteision, mae'r sector gwasanaethau ieuenctid yn wynebu nifer o sialensiau yng Nghymru. Mae toriadau ariannol yn effeithio ar y ddarpariaeth mewn nifer o awdurdodau lleol ac yn cael effaith ar gapasiti gwasanaethau ieuenctid i gynnig darpariaeth yn y tymor hir. Adroddodd PSIion bod modd i hyn effeithio ar gynaladwyedd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Felly, mae parhad ariannol yn allweddol fel bod mwy o sefydlogrwydd o ran cynllunio a darparu ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol.

8.16 Er bod defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau ariannol wedi caniatáu i wasanaethau ieuenctid barhau i ymgysylltu gydag ysgolion, mae'r sialensiau cyllido presennol i awdurdodau lleol yn golygu bod rhai gwasanaethau ieuenctid mewn perygl, ac maent wedi cael eu lleihau mewn rhai achosion.

8.17 Mae'r ddibyniaeth ar ffynonellau cyllido megis Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ddaeth i ben yn 2014, wedi arwain at ddiffyg ymgysylltu cynaliadwy a darpariaeth ar gyfer rhai awdurdodau lleol hefyd, ac mae hyn yn cael effaith ar y gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, roedd rhai PSIion o'r farn bod diffyg cyfeiriad gan Lywodraeth Cymru wrth annog ysgolion i wario eu Grant Amddifadedd Disgyblion ar wasanaethau ieuenctid.

8.18 Ceir dull gweithredu cyferbyniol lle y mae awdurdodau lleol yn gofyn am gyfraniadau gan ysgolion er mwyn darparu gwasanaethau ieuenctid. Adroddodd PSIion rhai awdurdodau

lleol am ostyngiad yn y galw am wasanaethau ieuenctid mewn ysgolion pan fyddai tâl yn cael ei godi ar ysgolion amdanynt.

8.19 Adroddodd eraill bod ysgolion yn hapus i dalu am rai gwasanaethau, a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cytuno ar sail y galw amdanynt. Pan gaiff gwasanaethau eu gwerthfawrogi a'u teilwra yn unol â gofynion ac ethos ysgolion, mae'n ymddangos bod ysgolion yn fwy parod i dderbyn bod gofyn iddynt gyfrannu at y cyllid.

8.20 Mae ysgolion sy'n tueddu i werthfawrogi gwaith ieuenctid yn fwy tebygol o fod wedi meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda gwasanaethau ieuenctid dros gyfnod hir. Er hyn, mae sialensiau yn bodoli o hyd wrth ddatblygu a chynnal partneriaethau ac wrth sicrhau bod y negeseuon cadarnhaol ynghylch gwaith ieuenctid yn cyrraedd ysgolion.

8.21 Gallai enghraifft y consortia rhanbarthol a ddatblygwyd gan CWVYS fod yn fodel posibl i'w ystyried mewn perthynas â chreu rhwydwaith darpariaeth gwaith ieuenctid mwy cydlynol ar draws Cymru. Mae'n bosibl y byddai modd cysylltu hyn gyda'r broses o ad-drefnu llywodraeth leol dros y blynyddoedd nesaf.

8.22 Yn gyffredinol, mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn llwyddo i ddarparu amrediad o fanteision i bobl ifanc, ysgolion a chymunedau yng Nghymru, fel y dangosir yn rhan 'Cryfderau' y diagram SWOT yn ffigwr 8.1. Mae'n ychwanegu gwerth i'r cwricwlwm statudol ac mae'n cyfrannu at lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb uwch a materion sy'n ymwneud â phobl ifanc NEET. Mae ethos ymgysylltu gwirfoddol yn cysylltu gwasanaethau gydag anghenion ac uchelgais pobl ifanc, ac mae partneriaethau llwyddiannus wedi'u seilio ar ymddiriedaeth wedi datblygu rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion.

8.23 Er hyn, mae sefydlogrwydd ariannol, gwaith monitro mwy cydlynol ac effeithiol, rhwydweithio a hyrwyddo gwasanaethau ieuenctid oll yn sialensiau i'w hwynebu wrth sicrhau bod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cadw gafael ar ei allu i gynnig

manteision i bobl ifanc ar draws Cymru. Cyflwynir cyfleoedd a bygythiadau pellach yn ffigwr 8.1.

Ffig 8.1: Dadansoddiad SWOT o waith ieuenctid presennol mewn ysgolion

Cryfderau

- Darparir amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws Cymru ar sail angen unigol;
- Dull gweithredu amgen ac ategol yn ychwanegu gwerth i addysg ffurfiol;
- Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn gwella sgiliau academaidd a sgiliau meddal;
- Amgylchedd cynorthwyol yn gwella gweithgarwch ymgysylltu gydag addysg ac mae'n codi uchelgais;
- Mae'n helpu i ostwng nifer y bobl ifanc NEET;
- Mae modd manteisio ar gymwysterau a chymorth arall o ganlyniad i'r gwaith;
- Mae lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb yn gwella;
- Ceir llai o ymddygiad anystywallt yn yr ystafell ddosbarth.
- Mae gweithwyr ieuenctid yn rhoi'r adnoddau diweddaraf i ysgolion, gan helpu i wella gwybodaeth athrawon;
- Mae'n gallu arwain at gynnydd yng ngweithgarwch ymgysylltu pobl ifanc gyda gwaith ieuenctid cymunedol.

Gwendidau

- Mae modd i ddiffyg gwybodaeth am waith ieuenctid arwain at dybiaethau negyddol;
- Weithiau, ceir disgwyliadau afrealistig o waith ieuenctid;
- Toriadau ariannol yn arwain at ddiffyg cynllunio strategol a chynaladwyedd;
- Gwnaeth rhai awdurdodau lleol adrodd am lai o alw am wasanaethau ieuenctid mewn ysgolion pan godwyd tâl ar ysgolion;
- Mae modd i ddiffyg cysondeb a chydlyniad wrth fonitro gyfyngu ar y gwaith o hyrwyddo gwaith ieuenctid;
- Mae'r lefel a'r math o waith a wneir i fonitro gwaith ieuenctid, ac amlder gweithgarwch adrodd a chyfarfodydd rhwng gweithwyr ieuenctid a staff ysgolion, yn amrywio;
- Mae'n anodd crisialu effaith y sgiliau cymdeithasol/mwy meddal a'r effaith ar uchelgais person ifanc.

Cyfleoedd

- Datblygu partneriaethau gwell rhwng ysgolion, grwpiau ieuenctid a grwpiau cymunedol lleol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth;
- Mae angen i waith ieuenctid gael cyswllt agos gydag ethos yr ysgol;
- Gwaith ychwanegol i hyrwyddo manteision gwaith ieuenctid mewn ysgolion er mwyn cynnal tybiaethau cadarnhaol o waith ieuenctid;
- Darpariaeth barhaus gan awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol yn gweithio yn annibynnol ac mewn partneriaeth;
- Y potensial i Lywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd ffurfiol i ysgolion wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar wasanaethau ieuenctid;
- Y potensial o gyflwyno un system ar gyfer yr holl ysgolion er mwyn caniatáu rhannu, cofnodi a rheoli gwybodaeth fonitro.

Bygythiadau

- Nid un dull gweithredu 'sy'n addas i bawb' yw'r ateb, rhaid ymgysylltu gyda phob ysgol yn unigol;
- Mae awdurdodau lleol yn wynebu toriadau ariannol sy'n lleihau gallu y gwasanaethau ieuenctid;
- Mae modd i faterion ariannol gael effaith ar niferoedd y staff;
- Mae sialensiau wrth sicrhau cyllid ar gyfer y tymor hir yn golygu nad oes modd i wasanaethau ieuenctid wneud cynlluniau hirdymor er mwyn cynnig darpariaeth;
- Mae pwysau ar ysgolion i sicrhau perfformiad academaidd yn golygu bod ysgolion yn canolbwyntio yn fwy ar ganlyniadau caled;
- Mae sialensiau yn bodoli o hyd wrth gynnal partneriaethau ac wrth sicrhau bod y negeseuon cadarnhaol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid yn cyrraedd ysgolion;
- Ni ddylai gwaith monitro gael effaith negyddol ar amser cyswllt wyneb yn wyneb rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc.

Atodiad 1: Methodoleg

i. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd er mwyn cynnal y gwerthusiad o effaith gwaith ieuenctid mewn ysgolion yng Nghymru ac er mwyn nodi enghreifftiau o arferion da.

Trosolwg o'r fethodoleg

ii. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys ymchwil ddesg cychwynnol; cyfweliadau manwl gyda Phrif Swyddog Ieuenctid y 22 awdurdod lleol neu eu swyddogion cyfatebol, ac aelodau ychwanegol o dimau gwasanaeth ieuenctid, cyfweliadau manwl gyda mudiadau gwirfoddol a choladu deunydd astudiaethau achos ar sail y cyfweliadau hyn ac ymchwil ddesg ychwanegol. Isod, rydym yn amlinellu rhesymeg a chyfyngiadau'r fethodoleg, ac mae paragraffau 5 i 10 yn cynnig trosolwg o'r dulliau gweithredu hyn.

iii. Y rhesymeg dros y dull gweithredu a amlinellwyd uchod oedd galluogi i ystod eang o wybodaeth i gael ei chasglu ynghylch y gwaith ieuenctid sy'n digwydd ar draws Cymru. Roedd cyfweliadau manwl gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid yn caniatáu dirnadaeth fanwl o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn delio gyda gwaith ieuenctid mewn ysgolion ar hyn o bryd. Ar yr un pryd, roedd cyfweliadau manwl gyda detholiad o fudiadau gwirfoddol yn cynnig enghreifftiau o'r ffordd y mae mudiadau gwirfoddol yn cyflawni rôl allweddol wrth gynnig darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion, mewn cyd-destunau cenedlaethol a lleol.

Cyfyngiadau'r fethodoleg

iv. Mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer y gwaith ymchwil wedi cynnig dirnadaeth bwysig ynghylch y math o waith ieuenctid sy'n digwydd mewn ysgolion, ac effaith y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae cwmpas ac amserlenni y gwaith ymchwil wedi golygu bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn cynnig trosolwg gwerthfawr o weithgarwch presennol. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnig darlun hollol gynhwysfawr o'r gwaith ieuenctid sy'n digwydd mewn ysgolion ar draws Cymru a dylid ystyried cynnal astudiaeth fapio fanwl yn y dyfodol er mwyn darparu hyn.

Ymchwil ddesg

v. Rhoddwyd cryn dipyn o sylw i faes gwaith ieuenctid mewn ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr ymchwil ddesg yn cynnwys adolygu gwaith ymchwil blaenorol er mwyn rhoi'r gwerthusiad yn ei gyd-destun cywir. Yn ogystal, roedd yr ymchwil ddesg yn cynnwys adolygiad o wefannau awdurdodau lleol er mwyn cael dealltwriaeth gychwynnol o'r hyn y mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn ei ddarparu mewn ysgolion.

Cyfweliadau gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid awdurdodau lleol

vi. Mae gan bob awdurdod lleol wasanaeth ieuenctid sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid. Er mwyn cael dealltwriaeth o'r ffordd y mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn delio gyda gwaith ieuenctid mewn ysgolion, gwnaeth y tîm ymchwil gyfweld cynrychiolwyr perthnasol o wasanaethau ieuenctid y 22 awdurdod lleol ar draws Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe'u cynhaliwyd gydag unigolion a oedd yn gyfrifol am waith ieuenctid mewn ysgolion yn benodol. At ddiben yr adroddiad hwn, cyfeirir at yr holl rai a gyfwelwyd yn ystod y cam hwn o'r gwaith ymchwil fel Prif Swyddogion Ieuenctid (PSIion).

vii. Roedd cyfweliadau gyda PSIion yn cynnwys trafodaeth fanwl, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ynghylch natur y gwaith ieuenctid sy'n digwydd mewn ysgolion ar draws ardal yr awdurdod lleol, pa mor effeithiol ydyw, y perthnasoedd rhwng y gwasanaeth ieuenctid ac ysgolion ac unrhyw rwystrau sy'n codi wrth ddarparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion (gweler atodiad 2 am ganllaw ynghylch y materion a drafodwyd yn ystod y cyfweliadau).

Cyfweliadau gyda mudiadau gwirfoddol

viii. Mae nifer o fudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol yn cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid. Er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y caiff gwaith ieuenctid mewn ysgolion ei ddarparu gan fudiadau gwirfoddol, bu'r tîm ymchwil yn cyfweld cynrychiolwyr detholiad o fudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol sy'n gwneud gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys ASH Cymru, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS), Canolfan i Bobl Ifanc Cwmbrân, Gwirfoddoli Myfyrwyr Discovery – Prifysgol

Abertawe, Gwobr Dug Caeredin, Ymddiriedolaeth Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), y Groes Goch a'r Urdd.

ix. Yn yr un modd â'r cyfweliadau gyda PSIion, roedd y cyfweliadau gyda mudiadau gwirfoddol yn cynnwys trafodaethau manwl ynghylch natur y gwaith ieuenctid a ddarparir gan y sefydliad, pa mor effeithiol ydyw, perthnasoedd rhwng y mudiad gwirfoddol ac ysgolion a rhwystrau sy'n atal gwaith ieuenctid rhag cael ei ddarparu mewn ysgolion.

Coladu astudiaethau achos

x. Mae Arad wedi paratoi cyfres o astudiaethau achos er mwyn cynnig enghreifftiau o arferion da sy'n digwydd ar draws Cymru. Mae'r astudiaethau achos wedi cael eu datblygu trwy gyfrwng y cyfweliadau a thrwy gyfrwng ymchwil ddesg ychwanegol gan ddefnyddio data monitro gwasanaethau ieuenctid. Mae Atodiad 3 yn cynnwys detholiad o'r astudiaethau achos hyn; maent yn dangos amrywiaeth ac ehangder gwaith ieuenctid mewn prosiectau ysgolion sy'n cael eu darparu gan y sector statudol ac anstatudol ar draws Cymru.

Atodiad 2: Canllaw i'r materion a drafodwyd yn ystod y cyfweliadau

Canllaw i'r Pynciau a drafodwyd gyda PSI

Gwaith ieuenctid a natur y ddarpariaeth

1. Sut ydych chi yn diffinio gwaith ieuenctid mewn ysgolion?

2. Pa fath o waith ieuenctid sy'n digwydd mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol?
   - Pa fath o ddarpariaeth a gynigir a sut mae'n cael ei darparu? (E.e. Wedi'i thargedu/rhaglenni cyfeirio, Rhaglenni galw heibio yn ystod oriau ysgol, Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI), Gwaith cyfranogi, Gwobr Dug Caeredin, Gweithgareddau chwaraeon)

3. Faint o brosiectau gwaith ieuenctid sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ardal yr awdurdod lleol?

4. Faint o ysgolion y mae'r gwasanaethau ieuenctid yn ymgysylltu gyda nhw ar hyn o bryd?

5. Pa fathau o ysgolion sydd wedi ymgysylltu gyda phrosiectau ieuenctid hyd yn hyn? (e.e. 11-16, 11-18, 16-18, arbennig, annibynnol?) A oes unrhyw gwmpas i ehangu'r gweithgarwch ymgysylltu hwn?

6. Sut mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cael ei ariannu ar hyn o bryd?

Manteision ac effeithiolrwydd gwaith ieuenctid mewn ysgolion

7. Beth yw manteision gwaith ieuenctid mewn ysgolion?
   - Sut mae'n cynnig budd i bobl ifanc?
   - Sut mae'n cynnig budd i athrawon?
   - Sut mae'n cynnig budd i ysgolion e.e. ymestyn y cwricwlwm, ethos, cysylltiadau gyda'r gymuned? Sut mae'n cynnig budd i wasanaethau ieuenctid ac awdurdodau lleol?

8. Pa mor effeithiol yw'r prosiectau gwaith ieuenctid hyn wrth gyflawni eu nodau penodol?
   - Pa ddata monitro, os o gwbl, yr ydych yn ei gasglu er mwyn mesur effeithiolrwydd prosiectau gwaith ieuenctid? (e.e. unrhyw effaith ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad yn yr ysgol?)
   - A yw'r prosiectau gwaith ieuenctid hyn yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc hynny a ddosbarthwyd fel rhai NEET? Os ydynt, sut?

- A oes gennych chi unrhyw enghreifftiau penodol o waith ieuenctid effeithiol mewn ysgolion?
- Beth yw'r ffactorau sy'n sicrhau llwyddiant y prosiectau penodol hyn?

Cysylltiadau rhwng ysgolion a gwasanaethau ieuenctid

9. Sut y caiff perthnasoedd rhwng gwasanaethau ieuenctid/gweithwyr ieuenctid ac ysgolion eu meithrin a'u cynnal?

10. Beth sy'n gwneud cysylltiadau rhwng ysgolion a gwasanaethau ieuenctid yn llwyddiannus/aflwyddiannus?
    - Beth yw nodweddion cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion a gwasanaethau ieuenctid?

11. Sut mae modd cynnal cysylltiadau rhwng ysgolion a gwasanaethau ieuenctid, a'u gwella?

Rhwystrau ac ymgysylltu yn y dyfodol

12. A oes unrhyw rwystrau sy'n atal ymgysylltu gyda gwaith ieuenctid mewn ysgolion ar hyn o bryd?

13. Sut mae modd gwella'r ffordd o hyrwyddo a darparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn y dyfodol?

14. Sut mae modd cysylltu gwaith ieuenctid mewn ysgolion gyda strategaethau addysg ac ieuenctid presennol Llywodraeth Cymru e.e. Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol 2014-18, mewn ffordd effeithiol?

Canllaw i'r Pynciau a drafodwyd gyda Mudiadau Gwirfoddol

Gwaith ieuenctid a natur y ddarpariaeth

15. Sut ydych chi yn diffinio gwaith ieuenctid mewn ysgolion?

16. Beth yw natur y gwaith ieuenctid y mae'ch sefydliad chi yn ei gyflawni mewn ysgolion?
    - Graddfa y gwaith/ymgysylltu (lleol, cenedlaethol)
    - Y math o ddarpariaeth (enghreifftiau o weithgareddau/prosiectau, grwpiau targed, cyfeiriadau)
    - Amlder (parhaus, cyswllt rheolaidd, sesiynau unigol)

17. Faint o brosiectau gwaith ieuenctid sy'n gysylltiedig ag ysgolion y mae'ch sefydliad yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd?

18. Faint o ysgolion y mae'ch sefydliad yn ymgysylltu gyda nhw ar hyn o bryd?

19. Pa fathau o ysgolion sydd wedi ymgysylltu gyda'ch prosiectau gwaith ieuenctid? (e.e. 11-16, 11-18, 16-18, arbennig, annibynnol?) A oes unrhyw gwmpas i ehangu'r gweithgarwch ymgysylltu hwn?

20. Sut mae'ch gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cael ei ariannu ar hyn o bryd?

Manteision ac effeithiolrwydd gwaith ieuenctid mewn ysgolion

21. Beth yw manteision gwaith ieuenctid mewn ysgolion a ddarparir gan fudiadau gwirfoddol?
    - i bobl ifanc?
    - i athrawon?
    - i ysgolion e.e. ymestyn y cwricwlwm, ethos, a chysylltiadau gyda'r gymuned?
    - i wasanaethau ieuenctid ac awdurdodau lleol?

22. Pa mor effeithiol yw'r prosiectau gwaith ieuenctid hyn wrth gyflawni eu nodau penodol?
    - Pa ddata monitro, os o gwbl, yr ydych yn ei gasglu er mwyn mesur effeithiolrwydd prosiectau gwaith ieuenctid? (e.e. unrhyw effaith ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad yn yr ysgol?)
    - A yw'r prosiectau gwaith ieuenctid hyn yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc hynny a ddosbarthwyd fel rhai NEET? Os ydynt, sut?
    - A oes gennych chi unrhyw enghreifftiau penodol o waith ieuenctid effeithiol mewn ysgolion?
    - Beth yw'r ffactorau sy'n sicrhau llwyddiant y prosiectau penodol hyn?

Cysylltiadau rhwng ysgolion a mudiadau gwirfoddol

23. Sut y caiff perthnasoedd rhwng eich mudiad gwirfoddol chi ac ysgolion eu meithrin a'u cynnal?

24. Beth sy'n gwneud cysylltiadau rhwng ysgolion a mudiadau gwirfoddol yn llwyddiannus/aflwyddiannus?
    - Beth yw nodweddion allweddol cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion a mudiadau gwirfoddol?

25. Sut mae modd cynnal cysylltiadau rhwng ysgolion a mudiadau gwirfoddol, a'u gwella?

Rhwystrau ac ymgysylltu yn y dyfodol

26. A oes unrhyw rwystrau sy'n atal ymgysylltu gyda gwaith ieuenctid mewn ysgolion ar gyfer y sector gwirfoddol ar hyn o bryd?

27. Sut mae modd gwella'r ffordd o hyrwyddo a darparu gwaith ieuenctid gan y sector gwirfoddol mewn ysgolion yn y dyfodol? (cysylltiadau gydag addysg yr awdurdod lleol/gwasanaethau ieuenctid /partneriaid eraill?)

28. Sut mae modd cysylltu gwaith ieuenctid mudiadau gwirfoddol mewn ysgolion gyda strategaethau addysg ac ieuenctid presennol Llywodraeth Cymru e.e. Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol 2014-18, mewn ffordd effeithiol?

Atodiad 3: Astudiaethau Achos

ASTUDIAETH ACHOS #1: Prosiect wedi'i seilio ar rywedd [2]

Lleoliad:	Wrecsam
Cyflawnwyd gan:	Gweithwyr ieuenctid amser llawn mewn ysgolion, Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam
Cyfranogwyr:	Benywod ym mlynyddoedd 8-11 (12-16 oed)

Crynodeb

Nodwyd bod grŵp o chwe benyw ym mlwyddyn 8 (12-13 oed) yn manteisio ar wasanaethau cymunedol a meddygol o bryd i'w gilydd yn unig, os o gwbl. Roedd eu perthnasoedd yn yr ysgol dan straen a theimlwyd eu bod oll mewn perygl difrifol o ddioddef niwed gan wrywod hŷn, yn rhannol o ganlyniad i'w diffyg dealltwriaeth o'r risgiau y gallent fod yn agored iddynt. Cynorthwywyd y prosiect gan y swyddog amddiffyn plant, ac roedd ar ffurf cwrs 12 wythnos a hwyluswyd gan y gweithwyr ieuenctid yn yr ysgolion. Gwnaeth y cwrs herio'r merched a'u hysbysu o'r mathau o ymddygiad mwy peryglus yr oeddent yn ymwneud â nhw.

Yn ogystal â gweithwyr ieuenctid, cyfarfu nifer o weithwyr proffesiynol eraill gyda'r grŵp, gan gynnwys Swyddog Cyswllt Ysgolion yr Heddlu, a fu'n canolbwyntio ar risgiau a chanlyniadau posibl camfanteisio rhywiol, gan gynorthwyo gyda chais am gyllid cymunedol gan yr heddlu. Llwyddodd y cais llwyddiannus am gyllid i dalu am gwrs hunan-amddiffyn ar gyfer y grŵp, ynghyd â sesiwn addysg yn yr awyr agored. Cynhaliodd y nyrs ysgol sesiwn am iechyd rhywiol a pheryglon alcohol. Yn ogystal, bu'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu sesiynau am berthnasoedd iach/afiach, iechyd rhywiol, cyffuriau ac alcohol. Parhawyd y prosiect gyda'r merched trwy gydol blwyddyn 7 ac yna ymlaen i flynyddoedd 10 ac 11.

Effaith

Cynhaliwyd gwerthusiad ar ddiwedd y cwrs 12 wythnos cychwynnol;

'*Mae'r grŵp hwn yn **elfen hanfodol o'n gofal bugeiliol** ar gyfer merched ifanc agored i niwed. Ychydig flynyddoedd yn ôl, gwnaeth sawl merch gael cyswllt gyda dynion hŷn, a wnaeth arwain at gam-drin cyffuriau ac alcohol. Gan mai hwn oedd y tro cyntaf i rywbeth fel hyn ddigwydd yn ein hysgol ni, roeddem ar ei hôl hi wrth ymateb iddo. Bwriadwn **ddefnyddio dull gweithredu aml-asiantaeth** os byddwn fyth yn amau bod yr un peth yn digwydd eto.'* (Aelod o staff yr ysgol)

*'O ganlyniad i'r berthynas yr oeddwn i a'm cydweithiwr wedi ei meithrin gyda'r grŵp, roeddent [y merched] yn teimlo bod modd iddynt wneud nifer o ddatgeliadau difrifol am bobl ifanc yr oeddent yn gwybod eu bod mewn trafferthion. Roeddent yn ymddiried yn y ffaith y byddent yn gweithredu mewn ffordd briodol ar ôl cael y wybodaeth ac o ganlyniad, gwnaethpwyd **ymyriadau a chymrwyd camau** trwy'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol a wnaeth arwain at sefyllfa sawl un o'r bobl ifanc yn cael ei datrys yn llwyr neu o leiaf yn cael ei nodi a'i gwella*.' (Gweithiwr ieuenctid)

[2] Carolyne Prew, 2015, School Based Youth Work: A gender based practice example, Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam.

Yn ogystal, gwelwyd **gwaith effeithiol mewn Partneriaeth** gyda Barnardo's Cymru, wrth i'r grŵp o ferched a nifer o fenywod ifanc eraill agored i niwed gael eu nodi yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach mewn prosiect peilot – gweithdy camfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn ddiweddarach, gwnaeth Barnardo's Cymru adnewyddu eu cyswllt gyda'r tîm Gwaith Ieuenctid ac estynnwyd gwahoddiad i'r grŵp o ferched fynychu digwyddiad i ddathlu hyn yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i'r grŵp baratoi rhywfaint o waith creadigol a fyddai'n cynrychioli sut y maent yn teimlo am eu bywydau ac i anfon unrhyw negeseuon yr oeddent yn dymuno eu cyfleu i oedolion. Gallai hwn fod ar ffurf barddoniaeth, celf, dawns neu ganeuon. Arddangoswyd gwaith celf yng Nghaerdydd[3] ym mis Tachwedd 2014, a chyfarfu'r myfyrwyr gyda Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru a Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog Iechyd, gan drafod eu prosiect gyda nhw. Ym mis Chwefror 2015, estynnwyd gwahoddiad i'r grŵp yn ôl i Gaerdydd am ail ddigwyddiad gan Barnardo's, lle y cafodd eu gwaith ei arddangos yn ffurfiol unwaith eto.

Mae'r prosiect wedi gwneud **gwahaniaeth aruthrol i hunan-barch y menywod ifanc**, ac nid yn unig y mae eu gwaith wedi cael ei arddangos mewn dwy oriel gelf yng Nghaerdydd, ond maent wedi cael canmoliaeth hefyd. Bwriedir trawsnewid y gwaith celf yn bosteri i'w harddangos mewn coridorau ysgolion.

Adeg ysgrifennu hwn, roedd y grŵp yn trefnu taith i Lundain i fynychu digwyddiad dathlu yn Stadiwm Wembley[4]. Fel rhan o'u cyswllt gyda'r digwyddiad hwn, mae'r merched yn paratoi i godi arian ar gyfer grŵp o ferched yn Ecwador sy'n codi arian ar gyfer ysgol. Bwriedir cynnwys sesiynau byw bywyd iach a hunan-ddelwedd o'r corff fel rhan o'r paratoadau ar gyfer dringo yr Wyddfa a hefyd, annog y grŵp i ymchwilio i fywydau merched mewn gwledydd eraill lle y caiff addysg ei hystyried fel braint.

Ymgysylltu yn y dyfodol

Mae grŵp newydd o ferched blwyddyn 7 (11-12 oed) a blwyddyn 8 (12-13 oed) yn aros i'r amserlen fod yn glir pan fydd grŵp blwyddyn 11 yn gadael, fel bod modd i waith tebyg gychwyn gyda nhw. Yn ogystal, y gobaith yw y bydd modd cychwyn **grŵp ar gyfer dynion ifanc.**

3 Arddangosfa o'r enw 'Clywch ein Llais' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Gwasanaeth Seraf Barnardo's Cymru a Chelfyddydau Cymuned Cwm a Bro.

4 Mae 'We Day' yn rhan o raglen dinasyddiaeth weithredol gynhwysfawr o'r enw We Act, sy'n helpu i drawsnewid ysbrydoliaeth We Day yn weithredu go iawn trwy gynorthwyo ysgolion a grwpiau ieuenctid i wneud gwahaniaeth yn y byd. Mae'n dwyn pobl ynghyd i arwain newid byd-eang, i herio difaterwch ac i ddathlu'r newid y maent yn ei wneud yn eu cymunedau lleol a byd-eang.

ASTUDIAETH ACHOS #2: The Filter

Lleoliad:	Ar Draws Cymru
Cyflawnwyd gan:	Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (ASH) Cymru
Cyfranogwyr:	Hyd at 30 o ysgolion uwchradd, gan dargedu Cyfnod Allweddol 3

Crynodeb

Mae ASH Cymru yn darparu gwasanaeth wedi'i dargedu yng Nghymru gan ei fod yn meddu ar arbenigedd a rhwydweithiau gyda thimau iechyd cyhoeddus. Mae ASH Cymru yn perthyn i faes Gwaith Ieuenctid Iechyd Cyhoeddus. **The Filter** yw'r gwasanaeth gwybodaeth cyntaf yng Nghymru am ysmygu a thybaco ar gyfer pobl ifanc yn benodol, ac fe'i sefydlwyd yn 2012 ar ôl cael cyllid gan y Loteri Fawr, a fyddai'n dod i ben yn 2015. Nod y prosiect yw hyrwyddo iechyd pobl ifanc yng Nghymru trwy amlygu'r mythau a'r camdybiaethau ynghylch ysmygu a defnyddio tybaco. Mae gan y prosiect **wefan ddwyieithog, cyfryngau cymdeithasol a gwasanaeth cynghori.** Mae tîm The Filter yn teithio ar draws Cymru i weithio gyda gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc er mwyn eu haddysgu am faterion sy'n ymwneud ag ysmygu a defnyddio tybaco.

Mae ASH Cymru wedi datblygu **hyfforddiant a phecyn cymorth i ysgolion** – Filter the facts – ar gyfer athrawon sy'n darparu ABCh mewn ysgolion, ac mae hwn wedi cael ei deilwra er mwyn ei ddatblygu trwy rwydwaith Ysgolion Iach, ac mae'n ymwneud ag athrawon yn darparu **gweithdai mewn ysgolion.**

Manteision ac effeithiolrwydd y prosiect

Mae gan ASH Cymru **dîm cymwys** sy'n ymgysylltu mewn ffordd effeithiol a gwybodus, gan weithio o'r man lle y mae'r person ifanc. Mae ASH Cymru yn cynnig **darpariaeth hyblyg** ac mae modd iddynt fanteisio ar gymorth tîm cyfathrebu ychwanegol. Mae ASH Cymru yn darparu **gwybodaeth arbenigol** ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid statudol, ac mae'n **cynnig darpariaeth hyfforddiant** ar gyfer gweithwyr ieuenctid; athrawon; cwnselwyr ysgol; cynorthwywyr dysgu.

Mae prosiect The Filter wedi cael mwy o lwyddiant na'r disgwyl; cyswllt gyda **5,000+ o bobl ifanc** dros y ddwy flynedd gyntaf, a chyswllt gyda mwy yn ystod gwyliau a digwyddiadau eraill. Mae gwefan y prosiect wedi cael 40,000 o ymweliadau unigryw hyd yn hyn. Roedd prosiect The Filter yn ail yng nghategori iechyd, gofal cymdeithasol a lles Gwobrau Trydydd Sector CGGC 2014.

Ymgysylltu yn y dyfodol

Ar hyn o bryd, mae ASH Cymru yn datblygu **achrediad ar gyfer pobl ifanc** wrth i ASH Cymru gynllunio llawlyfrau mewn partneriaeth ag Youth Cymru am eu gweithdai; sialensiau ieuenctid – efydd, arian ac aur.

Mae prosiect dichonoldeb – sialens AB The Filter – er mwyn darparu ymyrraeth mewn colegau a dosbarthiadau chwech, yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Mae Sialens Ysgolion The Filter, sydd ar gyfer CA4 a Bagloriaeth Cymru, yn cael ei datblygu, ac mae'r sialens yn ymwneud â **hyfforddi disgyblion i fod yn fentoriaid cymheiriaid**. Mae ASH Cymru wedi dechrau hyrwyddo'r prosiect mewn ffordd anffurfiol, gan drafod cyllid gydag ysgolion. Bydd Cyllid y Loteri Fawr yn dod i ben ym mis Hydref 2015 ac mae ASH Cymru yn chwilio am gyllid newydd ar hyn o bryd er mwyn parhau rhaglen ieuenctid The Filter.

ASTUDIAETH ACHOS # 3: Dol Efelychu Gofal Baban Go Iawn – Prosiect Baban

Lleoliad: Ysgol Eirias, Bae Colwyn
Cyflawnwyd gan: Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
Cyfranogwyr: Myfyrwyr Datblygiad Plant Blwyddyn 10

Gwasanaeth Ieuenctid Conwy

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Conwy yn gweithio gyda'r holl ysgolion uwchradd yn y sir a gyda dwy Uned Cyfeirio Disgyblion yng Nghonwy. Nid yw'r gwasanaeth ieuenctid yn cael unrhyw gyfraniad ariannol gan ysgolion am y gweithgareddau a ddarparir.

Prosiect Baban

Nod prosiect baban yw cynorthwyo pobl ifanc sy'n ystyried dilyn gyrfa ym maes gofal plant, nyrsio, gwaith cymdeithasol a bydwreigiaeth er mwyn eu galluogi i feithrin empathi, a sgiliau gofalu am faban, yn ogystal ag empathi gyda rhieni.

Bydd pobl ifanc yn cael tair sesiwn yn yr ystafell ddosbarth, a ddarparir gan Wasanaeth Ieuenctid Conwy. Byddant yn dysgu sut i ofalu am y babanod ac yna, byddant yn mynd â'r babanod gartref am 24 awr. Yr wythnos ddilynol, byddant yn dychwelyd i werthuso'r prosiect ac er mwyn cael sesiwn am atal cenhedlu. Mae nifer y bobl ifanc sy'n gallu cymryd rhan yn y prosiect hwn ar unrhyw adeg yn gyfyngedig, gan mai dim ond pedwar baban sydd ar gael ar hyn o bryd. Felly, cynigir y prosiect i ysgolion fel rhaglen dreigl.

Manteision ac effeithiolrwydd y prosiect

Mae 100% o'r bobl ifanc wedi manteisio ar y ddarpariaeth, a llwyddodd 14 i gwblhau'r prosiect a sicrhau cymhwyster Agored ym mis Ionawr a Chwefror 2015 (yn ddibynnol ar wirio allanol).

'Mae'r myfyrwyr yn ei ystyried [y prosiect baban] fel uchafbwynt y cwrs ac mae mwyafrif y cwestiynau a ofynnir gan ddarpar fyfyrwyr blwyddyn 9 yn ymwneud â phrosiect baban, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfle os byddant yn dewis astudio'r cwrs.

*Bydd myfyrwyr yn ysgrifennu gydag **empathi a dealltwriaeth** pan fyddant yn sôn am ofal babanod*

*Mae disgyblion yn teimlo'n **hyderus i ofyn cwestiynau** ac maent yn dymuno cyfrannu yn ystod trafodaethau.*

*Fel athro y mae addysgu Datblygiad plant yn brofiad newydd i mi, teimlaf bod hi [y gweithiwr ieuenctid] wedi cynorthwyo'r myfyrwyr a **rhoi syniadau, y wybodaeth ddiweddaraf a chysylltiadau defnyddiol** i mi, yr ydw i wedi eu defnyddio yn barod er mwyn datblygu'r cwrs'.*

Enillodd Gwasanaeth Ieuenctid Conwy dair gwobr yn y Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid (Chwefror 2015), gan gynnwys **'Gwobr prosiect gwaith ieuenctid rhagorol mewn ysgol'** am ei waith wedi'i dargedu gyda dros 200 o bobl ifanc mewn ysgolion lleol. Ystyriwyd amrediad o faterion gan brosiectau amrywiol, a oedd yn amrywio o homoffobia i ddefnyddio caffein, i ddarganfod diwylliant Cymreig. Mae Prosiect Baban yn rhan o'r hyn a ddarparir i ysgolion hefyd.

ASTUDIAETH ACHOS #4: PSD Sir Benfro

Lleoliad:	Sir Benfro
Cyflawnwyd gan:	Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro
Cyfranogwyr:	Darparir y prosiect ar draws yr holl ysgolion uwchradd yn Sir Benfro

Crynodeb

Mae PSD yn rhaglen sy'n cael ei hachredu gan ASDAN, a ddarparwyd dros y 2 flynedd ddiwethaf fel dewis cwricwlwm amgen i bobl ifanc sy'n wynebu materion ym maes addysg. Mae'n cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder ynghylch sgiliau bywyd allweddol ac mae'n dal pwyntiau trothwy sy'n cyfateb â TGAU er mwyn symud ymlaen i gyfleoedd hyfforddiant a dysgu pellach.

Mae'r rhaglen yn cynnwys materion megis paratoi ar gyfer cyflogaeth, byw bywyd iach, manteisio i'r eithaf ar amser hamdden, cymuned a rhianta. Ceir elfen addysgol trwy gydol y rhaglen sy'n canolbwyntio ar fyw bywyd annibynnol a sgiliau bywyd ehangach. Yn ogystal â meithrin dealltwriaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau pobl ifanc, a materion cenedlaethol a byd-eang ehangach, mae'r rhaglen yn caniatáu i gyfranogwyr gynyddu eu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd lleol.

Er bod canlyniadau dysgu y rhaglen wedi cael eu pennu ymlaen llaw, ceir cwmpas i'r bobl ifanc ddatblygu'r amserlen er mwyn cwblhau unedau, gan ddibynnu ar eu hanghenion ac anghenion a diddordebau'r grŵp ehangach. Mae hyn yn sicrhau bod y profiad dysgu yn un cadarnhaol a bod lefelau ymgysylltu yn parhau i fod yn uchel. Mae'r holl gyfranogwyr yn cwblhau'r uned Hawliau a Chyfrifoldebau Pobl ifanc, a ddarparir gan weithwyr ieuenctid o'r tîm Hawliau Pobl Ifanc a Gwybodaeth Ieuenctid. **Mae cwblhau'r uned yn codi ymwybyddiaeth o'r agenda gyfranogi leol, cenedlaethol a byd-eang ar gyfer pobl ifanc** nad ydynt yn ymgysylltu gyda fforymau lleol, cynghorau ysgol neu Gynulliad Ieuenctid Sir Benfro yn draddodiadol.

Mae nifer o'r bobl ifanc sy'n dilyn y rhaglen wedi bod ar amserlenni llai neu mewn perygl o gael eu gwahardd yn flaenorol o ganlyniad i'w hagwedd a'u perthynas negyddol gydag addysg. Mae cwblhau'r rhaglen hon yn eu hannog i ymgysylltu ag addysg heb fod yn ffurfiol, y mae modd iddo gael ei wahaniaethu er mwyn adlewyrchu eu harddulliau dysgu amrywiol ac er mwyn sicrhau bod y prosiect dysgu yn cael effaith gadarnhaol arnynt.

Effaith y rhaglen

Mae Rhaglen PSD wedi galluogi pobl ifanc i gyflawni cymhwyster sy'n cyfateb â TGAU wrth iddynt gwblhau rhaglen heb fod yn ffurfiol, er mwyn rhoi hwb i'w hunan-barch, lefel eu hyder ac er mwyn iddynt fwynhau profiadau newydd gan gynnwys ymweliad preswyl ysgolion cyfunol i Fanceinion. Yn ystod yr ymweliad, roedd gan y bobl ifanc gyfrifoldeb dros eu cyllidebau unigol, a bu modd iddynt fanteisio ar ystod eang o weithgareddau a wnaeth gynyddu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant, amrywiaeth, hanes a ffordd o fyw drefol. Yn ogystal, mae hyn wedi eu galluogi i gynnwys y cymwysterau a sicrhawyd yn eu ceisiadau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant seiliedig ar waith ac mewn coleg.

Mae'r rhaglen yn annog pobl ifanc yr oeddent mewn perygl o ddadrithio yn flaenorol neu yr oedd ganddynt y potensial i gael eu gwahardd o'r ysgol, i barhau i fod yn aelodau gweithgar o gymuned yr ysgol. Mae hyn wedi galluogi'r

bobl ifanc i barhau gyda phynciau craidd megis Saesneg a Mathemateg gyda'u cymheiriaid, gan leihau'r risg y bydd lefelau presenoldeb gwael a gwaharddiadau yn effeithio ar unigolion, yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Effaith ddisgwyliedig y rhaglen ar y gymuned yn y tymor hir yw canlyniadau gwell i bobl ifanc, ac o ganlyniad, llai o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc gan bod modd i gyfranogwyr sicrhau cymwysterau perthnasol a phwyntiau trothwy er mwyn symud ymlaen i addysg neu hyfforddant pellach.

ASTUDIAETH ACHOS #5: Y Groes Goch

Lleoliad: Ar draws Cymru
Cyflawnwyd gan: Y Groes Goch
Cyfranogwyr: Ysgolion cynradd ac uwchradd

Crynodeb

Mae'r Groes Goch yn darparu cymysgedd o **ddarpariaeth uniongyrchol ac aml-asiantaeth** mewn ysgolion ac mae'n cynnig cyfleoedd i gael **profiad gwaith**. Mae'r ddarpariaeth uniongyrchol yn cynnwys Cymorth Cyntaf, addysg Ddyngarol, ac addysg ynghylch cyffuriau ac alcohol. Er enghraifft, gwnaeth y Groes Goch ddarparu Cymorth Cyntaf mewn 30 o ysgolion uwchradd yn ne Cymru yn ystod 2014. Mae modd i ddarpariaeth aml-asiantaeth gynnwys y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, Diogelwch ar y Ffyrdd, Safonau Bwyd a'r Groes Goch hefyd, wrth i bob un ohonynt ddarparu sesiynau byr, ac mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

- Diwrnodau Criw Craff (yr asiantaethau uchod yn darparu Cymorth Cyntaf gyda'r Groes Goch)
- Cyffuriau ac alcohol
- Parth perygl (gogledd Cymru)
- Diwrnod ymwybyddiaeth o droseddau sy'n ymwneud â cherbydau (troseddwyr ifanc a gyfeiriwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Tân a'r Heddlu, a'r Groes Goch yn darparu'r elfen Cymorth Cyntaf)

Manteision a mesur yr effaith

Mae'r dull gweithredu aml-asiantaeth yn golygu bod angen i wahanol asiantaethau gydweithio a **chynorthwyo ei gilydd** er mwyn cyfleu neges gref. Bydd **athrawon yn cael budd** gan bod modd iddynt ddefnyddio gwybodaeth/adnoddau yn eu gwersi. Rhoddir **rhywfaint o sylw i'r cwricwlwm** megis elfennau ADCDF Bagloriaeth Cymru ac ABCh.

Cesglir gwybodaeth am **hyder y person ifanc** ynghylch y materion a ddarparir gan y Groes Goch cyn y sesiynau ac ar ôl eu cwblhau. Yn ogystal, cofnodir tystiolaeth ynghylch pobl ifanc yn defnyddio eu hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn achub bywydau, er enghraifft;

"Rhoddodd disgybl un ar ddeg oed gymorth cyntaf i fenyw a oedd wedi cael ei hanafu yn dilyn damwain ffordd. Wrth i'w mam redeg i ysbyty gerllaw, roedd y disgybl wedi cynnig cysur iddi a'i chadw yn gynnes gan ddefnyddio sgiliau yr oedd wedi'u dysgu yn ystod ei hyfforddiant cymorth cyntaf gan y Groes Goch Brydeinig, a gafodd yn yr ysgol y diwrnod cynt."

Perthnasoedd gydag ysgolion

Mae modd i gysylltiadau cychwynnol ddod i'r amlwg o ganlyniad i ddigwyddiad aml-asiantaeth, mae athro wedi gweld yr hyn y gall y Groes Goch ei gynnig ac mae'n cysylltu â nhw yn dilyn y digwyddiad.

Bydd perthnasoedd gydag athrawon yn datblygu dros gyfnod o amser, '*yn enwedig pan fydd athrawon yn deall y manteision y mae modd i fudiadau gwirfoddol eu cynnig i ysgol. Bydd y Groes Goch yn cadw mewn* ***cysylltiad rheolaidd gydag athrawon –*** *y berthynas gyda'r athro y bydd y Groes Goch yn gweithio arni'.*

ASTUDIAETH ACHOS #6: Rhaglen cysylltu ysgolion

Lleoliad:	Abertawe
Cyflawnwyd gan:	Gwirfoddoli Myfyrwyr Discovery, Prifysgol Abertawe
Cyfranogwyr:	Cafodd naw ysgol yn Abertawe gyswllt gyda naw ysgol yn Sambia; bu 15 o fyfyrwyr prifysgol yn ymgysylltu gyda'r rhaglen ym mis Mawrth 2015

Crynodeb

Lansiwyd y rhaglen yn 2011 a bu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion arbennig yn Abertawe yn cymryd rhan. Bydd myfyrwyr o Brifysgol Abertawe ymweld â Sambia ar raglen yn ystod yr haf, ac ar ôl iddynt ddychwelyd, byddant yn mynd i ysgolion ac yn cynnig darpariaeth Dinasyddiaeth Fyd-eang yn y dosbarth ac yn ystod gwasanaethau. Mae'r prosiect wedi datblygu dros sawl blynedd wrth i bobl sôn amdano wrth eraill. Ym mis Gorffennaf 2014, gwnaeth UNICEF ymweld â Sambia gyda'r myfyrwyr o'r brifysgol, gan gymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo'r prosiect, ac o ganlyniad, gwelwyd mwy o ysgolion yn cymryd rhan ynddo.

Mae prosiect 'Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth' British Council yn rhan o'r prosiect, a bydd y myfyrwyr o Brifysgol Abertawe yn mynd i mewn i ysgolion lleol ar ddechrau'r cyswllt rhwng ysgolion. Mae cyllid 'Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth' yn cynnig y cyfle i athrawon deithio i'w hysgolion cysylltiedig yn Sambia, ac addysgu ynddynt.

Manteision ac effeithiolrwydd y rhaglen cysylltu ysgolion

Cyflwynir y ddarpariaeth ym mhob ysgol mewn ffordd wahanol yn dilyn **ymgynghoriadau gyda'r ysgolion,** gan sicrhau **cysylltiadau gyda'r cwricwlwm**. Mae'r rhaglen yn darparu elfen ychwanegol i ddysgu y disgyblion ac ar yr un pryd, mae'n **ehangu eu gorwelion ac yn codi eu huchelgais** wrth i fyfyrwyr prifysgol ymweld a gweithio gyda'r disgyblion. Bydd disgyblion yn dysgu am wahanol brofiadau gan bod y rhaglen yn un sy'n cynnwys profiadau go iawn.

Rhwystrau

Mae'r rhaglen yn **cystadlu gyda nifer o weithgareddau eraill** mewn ysgolion ac mae angen iddi gael ei marchnata mewn ffordd effeithiol i ysgolion, gan ei bod yn bwysig **'siarad iaith ysgolion'** er mwyn annog cyfranogiad.

Ffactorau llwyddiant

Mae nodi'r aelod mwyaf priodol o staff yr ysgol yn allweddol gan bod angen iddynt fod yn hyblyg, gan bod argaeledd y myfyrwyr yn gallu amrywio oherwydd eu bod yn astudio. Fel arfer, mae aelod o'r **tîm bugeiliol** yn y sefyllfa orau i awdurdodi ac i drefnu'r cysylltiadau a'r ddarpariaeth, gan arwain at **berthynas waith gref**. Yn ogystal, mae **British Council yn bartner** yn y rhaglen ac mae eu cymorth nhw wrth chwilio am ysgolion partner yn werthfawr. Un datblygiad sydd wedi deillio o'r rhaglen cysylltu ysgolion yn ddiweddar yw'r arfer lle y bydd **myfyrwyr prifysgol yn gwirfoddoli** neu'n treulio cyfnod ar leoliad gwaith mewn ysgolion.

Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi ennill dwy wobr; llwyddodd i gyrraedd rownd derfynol Gwobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru – Cyfraniad Nodedig i Ddinasyddiaeth Fyd-eang a Gwobr Cymunedau Seren Aur CGGC am arfer gorau wrth gysylltu cymunedau.

ASTUDIAETH ACHOS #7: Prosiect 'Think'

Lleoliad:	Abertawe (a de Cymru yn ehangach)
Cyflawnwyd gan:	Ymddiriedolaeth Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
Cyfranogwyr:	Pobl ifanc ar yr ymylon ar draws de Cymru

Crynodeb

Mae'r Ymddiriedolaeth Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) yn fudiad gwirfoddol a arweinir gan fuddiolwyr ac sy'n ceisio cynorthwyo pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru, gan roi sylw i hiliaeth ac eithafiaeth ar y dde eithaf ymhlith pobl ifanc. Lleolir yr ymddiriedolaeth yn Abertawe ac mae'n cynnal amrediad o brosiectau gan ymgysylltu pobl ifanc ar draws de Cymru. Nod Prosiect 'Think' yw herio hiliaeth ac eithafiaeth ar y dde eithaf a chynyddu gallu pobl ifanc i wrthsefyll ideoleg y dde eithaf. Fe'i hariannwyd yn y lle cyntaf gan Gronfa Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru ac mae bellach wedi cael grant am gyfnod o 3 blynedd o fis Ebrill 2012 i fis Mawrth 2015 gan Gronfa Arloesi y Loteri Fawr.

Cychwynnodd y prosiect peilot trwy gynnig y cyfle i bobl ifanc yn Abertawe a oedd wedi ymddieithrio i gymryd rhan mewn gweithdai rhaglen a fyddai'n rhoi'r ffeithiau i bobl ifanc am hil, crefydd a mudo, a defnyddio'r rhain er mwyn herio hiliaeth a gwrthod mythau a stereoteipiau. Gwnaeth dyfarnu Grant Arloesi y Loteri FAWR yn 2012 alluogi EYST i symud ymlaen gyda chanlyniadau'r gwerthusiad o'r prosiect peilot bach cychwynnol a datblygu prosiect sylweddol ar gyfer y tymor hwy, ac mae hwn wedi galluogi gweithgarwch i ddatblygu, profi a gwerthuso ffyrdd newydd o weithio gyda phobl ifanc gwyn yng Nghymru, y maent wedi ymddieithrio.

Cysylltiadau gydag ysgolion

Mae Prosiect 'Think' yn ddull gweithredu wedi'i dargedu yn hytrach na dull gweithredu cyffredinol, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r ffactorau hynny sy'n arwain at gefnogaeth a gweithgarwch ar y dde eithaf. Mae'r prosiect ar gyfer y bobl ifanc 14-25 oed mwyaf 'agored i niwed', sy'n cael eu cyfeirio gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid/Addysg Amgen ac sy'n cael eu dewis ar ôl ymgysylltu gydag ysgolion lleol, yr heddlu ac asiantaethau eraill. Mae EYST wedi cydweithio'n agos mewn partneriaeth gyda'r heddlu lleol, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (TTI), ysgolion ac Awdurdodau Lleol er mwyn cyflawni eu hamcanion.

"Mae wedi cymryd amser i feithrin ymddiriedaeth gydag ysgolion. Mae rhai staff yn barod iawn i gymryd rhan, ond nid yw eraill. Bellach, rydym yn cael cyfeiriadau gan ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, felly ceir deialog gyson."

Rheolwr prosiect EYST

Canlyniadau cadarnhaol a ffactorau er mwyn sicrhau llwyddiant

Mae gweithgarwch rhaglen prosiect 'Think' yn cynnwys gweithdai strwythuredig a ddarparir dros gyfnod o chwe i wyth wythnos i wyth grŵp o bobl ifanc bob blwyddyn, gan archwilio meysydd megis hunaniaeth a diwylliant, amrywiaeth, mudo a lloches, a deall eithafiaeth. Nod y prosiect yw meithrin dealltwriaeth a pharch ar y cyd trwy ddarparu gweithdai pwrpasol ac wedi'u targedu er mwyn herio a dadelfennu safbwyntiau hiliol mewn ffordd uniongyrchol. Trwy gyfrwng gweithdai a digwyddiadau eraill, mae hyfforddwyr lleol o gefndiroedd ieuenctid Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) yn gweithio i hyrwyddo integreiddio a derbyn pobl.

Mae'r prosiect wedi ymgysylltu gyda dros 80 o bobl ifanc bob blwyddyn ac mae bellach wedi ehangu y tu hwnt i Abertawe gan weithio gyda phobl ifanc ar draws De Cymru, Casnewydd, Merthyr, Aberdâr, Torfaen, Caerdydd, Caerfyrddin a Llanelli. Yn Abertawe, mae prosiect 'Think' wedi parhau i ymgysylltu gyda nifer o'r bobl ifanc a wnaeth gymryd rhan yn y gweithdai gwreiddiol ac mae nifer dda wedi parhau i ymweld â chanolfan galw heibio EYST, ac mae rhai wedi dod yn gydweithwyr ac yn wirfoddolwyr.

Mewn gwerthusiad annibynnol o'r prosiect, roedd bron pob un o'r bobl ifanc (98%) a wnaeth gymryd rhan yn barnu eu bod wedi dysgu rhywbeth am eithafiaeth, a gwnaethant ei ddiffinio fel 'mynd yn rhy bell gyda phethau'. Roedd 57% yn anghytuno gyda'r datganiadau 'Mae gormod o bobl o wahanol gymunedau hiliol neu grefyddol yn byw yn fy ardal' o'i gymharu gyda 24% ar y dechrau. Roedd 86% yn cytuno gyda'r datganiad 'Mae modd dysgu llawer gan bobl o ddiwylliannau a chefndiroedd eraill', o'i gymharu gyda 59% ar ddechrau'r prosiect.

“Heb effaith y prosiect, credaf na fyddai nifer o ddysgwyr wedi newid eu safbwyntiau a'u barn mewn cyfnod mor fyr. Gan bod y prosiect wedi cael ei gynnal dros sawl diwrnod, cafodd effaith enfawr ar y dysgwyr. Gwelwyd pob dysgwr a wnaeth fynychu'r cwrs yn newid eu safbwyntiau am fathau eraill o ddiwylliant, hil a chrefydd mewn ffordd gadarnhaol.”

Tiwtor Ysgol/Coleg Cynaladwyedd

Mae gan brosiect 'Think' nodau ehangach nawr, gan geisio datblygu gallu cymunedau i wrthsefyll problemau a thensiynau trwy dargedu'r bobl ifanc y maent wedi difreinio fwyaf mewn cymuned, a'u galluogi i gael dylanwad gadarnhaol ar eu cymheiriaid, eu teuluoedd a'u cymunedau. Yn ogystal, mae EYST yn gweithio i gysylltu eu gwaith ar 'Think' a phrosiectau cysylltiedig eraill gyda gwaith sefydliadau prif ffrwd eraill – e.e. astudio a gwaith dinasyddiaeth mewn ysgolion; creu mentoriaid cymheiriaid; rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan gyllid craidd ac sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill; a gwaith asiantaethau gwirfoddol eraill – e.e. clybiau diwylliannol a chwaraeon a sefydliadau ffydd.

“Mae'n wasanaeth unigryw. Rydym wedi symud i ffwrdd o weithgareddau megis diwrnodau amrywiaeth i ddull gweithredu mwy ystyrlon a strwythuredig, ynghyd â gweithdai rhyngweithiol er mwyn integreiddio grwpiau gwyn a BAME. Mae'n gysylltiedig gyda bywyd bob dydd, a dylanwad cadarnhaol gwledydd eraill. Mae Think wedi bod wrth wraidd y broses hon.”

Rheolwr prosiect EYST

ASTUDIAETH ACHOS #8: Pontio i Gyflogaeth

Lleoliad:	Merthyr Tudful
Cyflawnwyd gan:	Adran Gwasanaethau Oedolion Integredig, Awdurdod Lleol Merthyr Tudful
Cyfranogwyr:	Amrediad o bobl ifanc 11-19 oed

Crynodeb

Mae *Pontio i Gyflogaeth* yn cynnig rhaglen o gyfleoedd dysgu arloesol, amrywiol a blaengar ar gyfer pobl ifanc 11-19 oed trwy gyfrwng gwasanaethau sy'n targedu'r rhai y maent yn y perygl mwyaf o beidio cyflawni o fewn addysg y brif ffrwd neu o wynebu allgáu cymdeithasol ac addysgol.

Mae *Pontio i Gyflogaeth* yn rhan o'r ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Mae'n cynnig gweithgareddau a gynhelir ar bedwar diwrnod yn ystod yr wythnos yn y flwyddyn academaidd, gydag uchafswm o 10 dysgwr ym mhob grŵp (blynyddoedd 7 ac 8, 9, 10, ac 11). Nodwyd bod angen darpariaeth EOTAS arbenigol ar bobl ifanc, yn unol â diffiniad y meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhaglen, gan ganolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau, gyda'r nod o wella'u gweithgarwch ymgysylltu gyda dysgu.

Mae amcanion y Prosiect fel a ganlyn:-

- Gwella gweithgarwch ymgysylltu dysgwyr y mae ganddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol.
- Gwella sgiliau pobl ifanc mewn perthynas ag ADCDF, addysg amgylcheddol, gweithgarwch corfforol, gweithio gydag eraill a datrys problemau), deallusrwydd emosiynol, sgiliau gwaith, a nod y rhain yw gwella gweithgarwch ymgysylltu pobl ifanc gyda dysgu.
- Gwella canlyniadau achrededig y bobl ifanc sy'n mynychu'r ddarpariaeth.
- Darparu a chynorthwyo dilyniant i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n mynychu'r ddarpariaeth.

Ar y dechrau, mae'r holl gyfranogwyr 11-19 oed yn cael budd gan broses asesu personol sy'n gynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod y dysgu a gynigir yn adlewyrchu anghenion yr unigolyn. Mae'r rhaglen datblygiad personol a dysgu galwedigaethol strwythuredig yn cynnwys amrediad o sgiliau cymdeithasol; sgiliau meddal, sgiliau sylfaenol a sgiliau cyflogaeth trosglwyddadwy, wrth i'w hyder a'u gallu i ddysgu ddatblygu. Wrth gymryd rhan, bydd pobl ifanc yn cael y cyfle i sicrhau cymwysterau BTEC, ASDAN a City & Guilds.

Cysylltiadau gydag ysgolion

Yn ogystal, mae Pontio i Gyflogaeth yn darparu Llwybr Dysgu â Chymorth 2 ddiwrnod i bobl ifanc 15-16 oed (blwyddyn 11) dros ddau ddiwrnod yr wythnos, gan gynnig rhaglen amrywiol o achrediad ffurfiol a hunan-ddatblygiad personol. Mae pobl ifanc yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 1 CoPE ASDAN, Dyfarniad Lefel 1 Sgiliau Gwaith BTEC edexcel a Sgiliau Allweddol City & Guilds, gyda phwyslais ar Ddefnyddio Rhif a Chyfathrebu er mwyn codi lefel sgiliau sylfaenol.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda dysgwyr sydd yn yr ysgol ac sy'n cael cymorth ar gyfer un o'r canlynol neu fwy; tangyflawni, graddau D-G disgwyliedig, materion sy'n ymwneud â phresenoldeb, cymorth ymddygiad, cymorth gan Wasanaethau

Cynhwysiant, materion sy'n ymwneud â hyder a hunan-barch, yn annhebygol o ymgysylltu gyda'r rhan fwyaf o'u cymheiriaid yn yr ysgol ac yn debygol o gael anhawster gyda'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Trwy gyfrwng trefniadau adnabod ac ymyrraeth gynnar, mae'r prosiectau hyn yn ceisio ymgysylltu pobl ifanc y maent mewn perygl o fod yn NEET trwy gyfrwng pecyn cynhwysfawr o achrediadau a chymorth personol.

Diben y canlyniadau y bwriedir eu sicrhau yw darparu;

- cyfraddau ymgysylltu a chyrhaeddiad uwch ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed
- llwybrau dilyniant ôl-16 ehangach
- gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET

Canlyniadau cadarnhaol

Yn 2012, o blith y deg disgybl blwyddyn 11 a wnaeth ymgysylltu gyda darpariaeth Pontio i Gyflogaeth/EOTAS, aeth 10 disgybl ymlaen i sicrhau Dyfarniad COPE ASDAN, gwnaeth tri sicrhau Sgiliau Allweddol Ehangach a Dyfarniad Chwaraeon a Hamdden Weithredol BTEC Lefel 1, gan gyfrannu at nifer y bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol gyda chymhwyster. Gan bod y 10 disgybl blwyddyn 11 wedi llwyddo i gyflawni'r holl gymwysterau a oedd ar gael o fewn darpariaeth TIE/EOTAS, mae hyn wedi cyfrannu at 94.5 pwynt (75%) fesul disgybl tuag at drothwy lefel 1 ysgolion ar draws y bwrdeistref (120 pwynt neu 100% i gyflawni trothwy lefel 1).

Llwyddodd y pedwar person ifanc a wnaeth gwblhau'r Llwybr Dysgu â Chymorth 2012 – 13 dau ddiwrnod i sicrhau'r cymwysterau a oedd ar gael iddynt, gan gyfateb â 139 pwynt (110 %) yn rhagori ar drothwy lefel 1, gan gyfrannu at y dabl gynghrair ysgolion cysylltiedig.

Yn gyffredinol, o blith y 35 o ddysgwyr Blwyddyn 11 o garfan 2010 – 12, llwyddodd 27 i gwblhau'r cwrs a sicrhau cymhwyster llawn, gan gyfrannu at nifer y bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol gyda chanlyniad achrededig. O blith y 35 a wnaeth ymgysylltu gyda Rhaglenni Llwybrau Pontio i Gyflogaeth, gwelwyd 27 yn symud ymlaen i gyrchfan cadarnhaol gan gynnwys Dysgu Seiliedig ar Waith, Coleg neu Gyflogaeth, gan atal NEET.

Atodiad 4: Gwaith ieuenctid mewn ysgolion - sampl o'r prosiectau a ddarparir gan Wasanaethau Ieuenctid

Awdurdod lleol	Enghreifftiau
Ynys Môn Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw weithwyr ieuenctid mewn ysgolion; caiff gwaith prosiect ei gyflawni o hyd pan fydd ei angen ar ysgolion. Tan 2014, roedd gan bob ysgol weithiwr ieuenctid (a ariannwyd gan gyllid Ewropeaidd)	- Gwobr Dug Caeredin; - Mae swyddog ymwybyddiaeth alcohol yn gweithio gydag unrhyw ysgol yn ôl yr angen; - Cytundeb lefel gwasanaeth gyda darparwyr gwirfoddol i ddarparu achrediadau mewn rhai ysgolion.
Blaenau Gwent Mae gan bob ysgol uwchradd weithiwr ieuenctid amser llawn; mae tair o'r bedair ysgol yn hwyluso sesiynau galw heibio.	- Prosiect presenoldeb – rhan o pre-VENT – Mae'r bedair ysgol yn ariannu tri disgybl yr un; - Lift – mae'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Daw cyfeiriadau o'r ysgol ond darparir y prosiect y tu allan i'r ysgol; - Gweithiwr Cymraeg rhan-amser – partneriaeth gyda'r Urdd – dau ddiwrnod a hanner o amser gweithwyr yr Urdd. Yn ogystal, mae'r bartneriaeth hon yn galluogi'r cyfle i fanteisio ar gymorth arall o fewn yr Urdd;
Pen-y-bont ar Ogwr Mae naw gweithiwr ieuenctid FTE yn cysylltu gyda'r holl ysgolion uwchradd a chaiff diwrnodau eu neilltuo ar sail yr angen.	- Prosiect Newid Trywydd ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed sy'n NEET neu y maent mewn perygl o fod yn NEET; - Rhaglen Ysgol – darpariaeth oddi ar y safle ar gyfer disgyblion o unrhyw ysgol y maent mewn perygl o ymddieithrio. Mae'n cynnwys rhaglen sgiliau sylfaenol ac amrywiaeth o ddarpariaeth Achredu a ddarparir trwy Agored Cymru; - Together against Bullying (TAB), prosiect wedi'i ariannu gan y loteri sy'n cynnig dull gweithredu holistig sy'n cynnwys disgyblion, rhieni, gweinyddwyr ysgolion a menywod lolipop.
Caerffili Mae pedair o'r bedair ar ddeg ysgol uwchradd yn rhan o'r prosiect gwaith ieuenctid presennol mewn ysgolion, ac mae ganddynt weithwyr ieuenctid parhaol ar y safle.	- Achrediadau - ASDANS; Agored; BTECs; - Clwb brecwast; - Tystysgrif Ddringo; - Gwobr Dug Caeredin; - Prosiect Phoenix (un ysgol – gyda'r Gwasanaeth Tân).
Caerdydd Yn ymgysylltu gyda'r 22 ysgol ar draws Caerdydd.	- Rhaglenni ôl-16 sy'n canolbwyntio ar ostwng y niferoedd sy'n NEET; - Darpariaeth cyn-16 – Celfyddydau – darparir yn erbyn fframwaith BTEC ac mae'n achrededig; - Rhaglen cymorth pontio ar gyfer pobl ifanc trwy eu cyfnod o bontio o'r ddarpariaeth cyn-16 i ôl-16; - Rhaglen mentor ieuenctid – rhaglen cyn-16 sy'n cael ei hariannu trwy Teuluoedd yn Gyntaf.
Sir Gaerfyrddin Mae gan y 12 ysgol uwchradd weithiwr ieuenctid arweiniol amser llawn ac mae gan ysgol anghenion arbennig (7-16) weithiwr ieuenctid arweiniol amser llawn hefyd.	- Gwobr Dug Caeredin; - Datblygu ffilm (roedd y prosiect penodol hwn yn ymwneud â wynebu ofnau wrth gychwyn mewn ysgol newydd); - Iechyd a diogelwch yn y gweithle; - Ymyriadau y tu allan – mae ganddynt eu trwydded eu hunain i ddarparu gweithgareddau yn yr awyr agored (e.e. Ceufadu);
Ceredigion Yn ymgysylltu am ddau ddiwrnod yr wythnos mewn	- Gwobr Dug Caeredin; - Cymorth cyntaf a gweithgareddau allgyrsiol (e.e. golff a jujitsu) yn ystod amser cinio neu ar ôl ysgol;

chwech o'r saith ysgol uwchradd.	- NEET trwy ganolbwyntio ar angen unigol – prosiect hanner tymor tri diwrnod; Prosiect pontio a sesiynau rhagflas a chyrsiau preswyl sgiliau haf er mwyn paratoi ar gyfer cyflogaeth.
Conwy Yn ymgysylltu gyda'r saith ysgol uwchradd 11-18 a'r ddwy Uned Cyfeirio Disgyblion.	- Prosiect mentora llythrennedd gyda blwyddyn 9 yn mentora myfyrwyr blwyddyn 8. - Prosiect 'gofal baban go iawn'; - Mae dau fws yn ymweld ag ysgolion bob wythnos, gan alluogi sesiynau 'galw heibio' yn ystod cyfnodau egwyl a chinio; - Gwaith gyda chynghorau ysgol, mae prosiectau blaenorol yn cynnwys creu DVD a oedd yn canolbwyntio ar fwlio homoffobig; prosiect addysg cymheiriaid a oedd yn ystyried diodydd egni; prosiect gwrth-hiliaeth.
Sir Ddinbych Yn ymgysylltu gyda'r holl ysgolion i raddau fwy neu lai.	- Mae achrediad yn cynnwys CoPE (Tystysgrif Effeithiolrwydd Personol); - Cymorth un i un – meithrin hyder, rhifedd a llythrennedd; yn dod o gyfeiriadau Cyfiawnder Ieuenctid neu CAMHS. - Gwaith yn ystod y gwyliau haf er mwyn atal dad-sgilio; - Gweithdai e.e. gwrth-fwlio, iechyd rhywiol.
Sir y Fflint Un gweithiwr ieuenctid mewn ysgol ac un arall i roi cymorth yn ôl y gofyn. Mae gweithwyr ieuenctid eraill mewn ysgolion ond maent yn canolbwyntio ar achredu ac nid ydynt yn adrodd i'r Gwasanaeth Ieuenctid.	- Ysgol goedwig; - Prosiect realiti baban.
Gwynedd Dim gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion. Mae gan y gweithwyr ieuenctid a chymunedol berthynas gyda rhai ysgolion. Tan 2014, roedd pum gweithiwr ieuenctid a ariannwyd gan gyllid Ewropeaidd mewn ysgolion, yn darparu o leiaf un diwrnod yr wythnos yn yr holl ysgolion uwchradd.	- Achrediadau; - Gwobr Dug Caeredin.
Merthyr Tudful Pedwar clwstwr gwasanaeth cymunedol ar draws yr awdurdod lleol – un yn y gogledd, un yn y canol, a dau yn y de.	- Bwlio a diogelwch ar y rhyngrwyd; - Drug Aid; - Cynhwysiant ariannol mewn ysgolion; - Cwrs llwybrau dysgu cynorthwyol dau ddiwrnod (Lefel 1) – ynghylch sicrhau bod pobl ifanc yn mynychu ac yn sicrhau cyrhaeddiad – mae'n cynnwys cynllunio cyrchfan ôl-16.
Sir Fynwy Mae gan y bedair ysgol gyfun a'r EBD weithiwr ieuenctid amser llawn penodedig.	- Cymorth un i un (cyfeiriadau a galw heibio); - Cwricwlwm pwrpasol a ddarparir dan drefniant un i un neu i grŵp bach – mae modd iddo gynnwys achrediadau; Sgiliau Allweddol Ehangach a Hanfodol Lefelau Mynediad-2 BTEC Sgiliau Gwaith Lefelau 1-2 a Datblygiad Personol a Chymdeithasol Lefel 1; - Get up and Grow – prosiect garddio lle y mae modd i bobl ifanc sicrhau BTECs.
Castell-nedd Port Talbot 1. Y cynnig cyffredinol e.e. Addysg Rhyw a Pherthnasoedd; 2. Mae timau yn darparu gweithgarwch wedi'i ariannu neu ei dargedu mewn ffordd benodol e.e. Teuluoedd yn	- Sesiynau gwybodaeth iechyd a maeth; - Cyswllt gyda diwrnodau chwaraeon mewn ysgolion; - Darpariaeth symudol e.e. clybiau cinio. - Iechyd rhywiol i'r holl rai ym mlwyddyn 7 (daeth yr ysgogiad gan bobl ifanc trwy'r Cyngor Ieuenctid).

Gyntaf.	
Casnewydd Mae Gwasanaethau Ieuenctid yn gweithio gyda'r wyth ysgol uwchradd ac un coleg; 13 swydd FTE.	- Fforwm Dysgu Amgen (ALF). Caiff grŵp bach o'r Uned Cyfeirio Disgyblion eu cludo i leoliad niwtral; - Gwobr Dug Caeredin gan gynnwys cynorthwyo a hyfforddi staff i ddarparu; - Hwyluso cyfarfodydd bugeiliol rhwng pobl ifanc sydd mewn perygl ac eraill yn y gymuned, gan gynnwys yr heddlu; - Gweithio gyda'r coleg lleol a disgyblion blwyddyn 11 – yn gysylltiedig gyda phresenoldeb, gwaith grŵp a sesiynau un i un.
Sir Benfro Yn ymgysylltu gydag wyth ysgol uwchradd prif ffrwd, gan dargedu Cyfnod Allweddol 4 yn bennaf, mae gan un ysgol weithiwr amser llawn ac mae gan eraill un rhan-amser.	- BIIB – Cymhwyster ymwybyddiaeth o alcohol sy'n cael ei arwain gan ddiwydiant, ar gyfer blwyddyn 12, effaith defnydd alcohol yn y gymuned; - Sesiynau galw heibio, ystafell ieuenctid mewn un ysgol sydd ar agor yn ystod un amser cinio yr wythnos; - Gwobr Dug Caeredin; - Heart Start – gweithiwr ieuenctid sy'n gymwys i roi cymorth cyntaf.
Powys Darparir gwaith ieuenctid ar draws yr 13 ysgol a thair ysgol arbennig.	- Sesiynau galw heibio; - Gwobr Dug Caeredin; - Mae rhai clybiau ieuenctid a ddarparir yn y gymuned yn gysylltiedig gydag adeiladau ysgol; - Materion sy'n canolbwyntio ar thema – e.e. sesiynau iechyd emosiynol, gwaith ynghylch bwlio gyda grŵp o bobl ifanc.
Rhondda Cynon Taf Yn ymgysylltu gyda'r 17 ysgol uwchradd gan ddarparu dau aelod o staff amser llawn ym mhob un.	- Gwobr Dug Caeredin; - Mae gan rai ysgolion glybiau ieuenctid pwrpasol mewn ysgolion; - Mae'r gwasanaeth yn darparu rhaglenni sy'n cysylltu gyda throthwyon Lefel 2; - Darparir dwy noson o ddarpariaeth mynediad agored estynedig o safleoedd ysgol trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol.
Abertawe Caiff wyth gweithiwr ieuenctid amser llawn eu cynorthwyo gan swyddi arbenigol eraill, nid oes ganddynt bresenoldeb ym mhob ysgol.	- Gwobr Dug Caeredin; - Mae Addysgu Dysgwyr mewn Ysgolion (ELIS) yn rhan o'r cwricwlwm amgen; - Mae gwasanaethau gwybodaeth yn gysylltiedig gydag ABGI, lles a rhan o'u gwaith atal.
Torfaen Yn ymgysylltu gyda thair o'r chwe ysgol; mae tîm o 26 yn gysylltiedig gyda Prevent a phrosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, y mae ganddynt eu cyllidebau eu hunain.	- Datblygu cymwysterau ASDAN; - Gwobr Dug Caeredin; - ASDAN BTEC CA4 sy'n mynd â phobl ifanc allan o'r ysgol am ddiwrnod llawn i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau; - Sesiynau trwy gyfrwng y Gymraeg.
Bro Morgannwg Yn ymgysylltu gyda'r dair ysgol gyfun a'r ysgolion sy'n eu bwydo.	- Deallusrwydd Emosiynol; - Prosiect Ysgolion Canllaw i Ymgysylltu (G2E); - Bydd myfyrwyr o ysgolion yn cael eu cludo i'r coleg i weithio gyda'r gweithiwr ieuenctid yn y coleg; - Prosiect iechyd rhywiol.
Wrecsam Yn ymgysylltu gydag wyth o blith y naw ysgol uwchradd.	- Rhaglen gyfeirio CA4 wedi'i seilio ar y cwricwlwm, sy'n ceisio gostwng lefelau gwahardd; - Siop wybodaeth yn cynnwys iechyd rhywiol (mae gwaith allgymorth o hon yn mynd i mewn i ysgolion); - Interchange – cyffuriau ac alcohol; - Stiwdio recordio.

Atodiad 5: Cyfeiriadau

Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. 2010. *Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf.*

Llywodraeth Cymru. 2013. *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Cynllun Gweithredu*. [Chwefror 2014]. Ar gael trwy droi at: http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-en.pdf

Llywodraeth Cymru. 2014. *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru* (2014-2018). [Chwefror 2014]. Ar gael trwy droi at: http://dera.ioe.ac.uk/19353/1/140221-national-youth-work-strategy-en.pdf